Brynle Williams: I declare a personal interest in this issue. I recently discovered at first hand the excellent services provided by the cardiac rehabilitation nurses, whose work in offering counselling, and diet and medicinal advice, is enormously respected and well-intended for the patient. However, given the service's reliance on Lottery funding, which is renewed every three years, does the Minister agree that these essential services deserve the stability of permanent funding under the Minister's portfolio?

Brian Gibbons: Thank you, Brynle. We are all pleased to see you back and looking in good fettle. When the original national service framework on ischemic heart disease was published, the section on cardiac rehabilitation was an area that was probably under-developed. In the revised national service framework, that section has been rewritten to deal with issues such arrhythmias

wreiddiol yn 2000-02 ac sydd yn awr yn cael eu diweddu gyda'r nod o'u cyhoeddi ym mis Chwefror 2007—yn amlinellu llwybr clinigol clir i reoli gordewdra. Mae'r llwybr yn amrywio o atal gordewdra'n gynnar i batrymau deiet dwys a thriniaeth cyffuriau a fferylliaeth. Nodir llawdriniaeth fel y driniaeth olaf i'r rheini nad oes ganddynt ddewis arall ac sy'n dioddef gan ordewdra morbid, gyda mynegai más corff dangosol o 50.

C7 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido nyrsys adsefydlu'r galon yng Nghymru? OAQ0897(HSS)

Brian Gibbons: Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd nyrsys adsefydlu'r galon a'r cyfraniad a wnânt. Fodd bynnag, mater i ymddiriedolaethau unigol y GIG ei benderfynu yw darparu swyddi nyrsio arbenigol, gan gynnwys nyrsys adsefydlu'r galon, ar sail yr anghenion a nodir yn eu cynlluniau llwyth gwaith lleol ac angen clinigol.

Brynle Williams: Hoffwn ddatgan ddiddordeb personol yn y mater hwn. Cefais brofiad yn ddiweddar o'r gwasanaethau ardderchog a ddarperir gan nyrsys adsefydlu'r galon. Mae eu gwaith yn cynnig gwasanaeth cwnsela a chyngor ar ddiet a meddyginaeth, ac mae'n cael ei barchu'n fawr ac yn diwallu anghenion y claf. Fodd bynnag, o gofio am ddibyniaeth y gwasanaeth ar arian Loteri, a adnewyddir bob tair blynedd, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod y gwasanaethau hanfodol hyn yn haeddu sefydlogrwydd cyllid parhaol o dan bortffolio'r Gweinidog?

Brian Gibbons: Diolch, Brynle. Yr ydym i gyd yn falch o'ch gweld yn ôl ac yn edrych mor dda. Pan gyhoeddwyd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol gwreiddiol ar isgemia'r galon, mae'n debyg nad oedd yr adran ar adsefydlu'r galon yn faes a oedd wedi'i ddatblygu'n digonol. Yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig, mae'r adran honno wedi'i hailsgrifennu i ymdrin â

and so forth, but it is recognised that further editing is needed is in relation to rehabilitation nursing. However, there are a fair number of rehabilitation nurses working in north Wales, and a number of inequalities in health projects are also based on work that is going on in community rehabilitation across Wales. A document is out for consultation on exercise referral, which is about developing good practice in Wales, and that should also be an important adjunct to cardiac rehabilitation, in promoting appropriate physical exercise.

materion megis *arrythmia*, ac ati, ond cydnabyddir bod angen ei olygu ymhellach o ran nyrsys adsefydlu. Fodd bynnag, mae cryn nifer o nyrsys adsefydlu yn gweithio yn y gogledd, ac mae nifer o brosiectau anghydraddoldebau iechyd hefyd yn seiliedig ar waith sy'n mynd rhagddo ym maes adsefydlu cymunedol ledled Cymru. Mae ymgynghori'n digwydd ar ddogfen ar atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, sy'n ymwneud â datblygu arfer da yng Nghymru, a dylai hefyd fod yn ategiad pysig i adsefydlu'r galon wrth hybu ymarfer corff priodol.

Bwydo ar y Fron Breast-feeding

Q8 Janice Gregory: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government initiatives to promote breast-feeding in Wales? OAQ0923(HSS)

Brian Gibbons: Thank you, Janice; I know that you are very interested in this subject. The Welsh Assembly Government is committed to improving the numbers of mothers in Wales who initiate breast-feeding, as well as to extending the time that they breast-feed their babies. We have appointed a breast-feeding co-ordinator to support the promotion of breast-feeding and the breast-feeding strategy, 'Investing in a Better Start: Promoting Breastfeeding in Wales'.

Janice Gregory: You will be aware that low breast-feeding rates are often linked with deprivation and poverty. Recent statistics show that the lowest incidences of breast-feeding are found among mothers from routine and manual occupations, and those with the lowest educational levels. Another challenge is that many new mothers leave hospital quite quickly after giving birth, sometimes within hours, before there has been an opportunity to establish a breast-feeding pattern. Therefore, does the Minister agree that more work needs to be done in hospitals and in aftercare to ensure that mothers, particularly those from less advantaged backgrounds, are encouraged to breast-feed, and that once they begin breast-feeding that they are supported to continue?

C8 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo bwydo ar y fron yng Nghymru? OAQ0923(HSS)

Brian Gibbons: Diolch, Janice; gwn fod gennych ddiddordeb mawr yn y pwnc hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y mamau yng Nghymru sy'n dechrau bwydo ar y fron, yn ogystal ag ymestyn yr amser pan fyddant yn bwydo'u babanod ar y fron. Yr ydym wedi penodi cydgysylltydd bwydo ar y fron i gefnogi hyrwyddo bwydo ar y fron a'r strategaeth bwydo ar y fron, 'Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru'.

Janice Gregory: Fe wyddoch fod cyfraddau isel o fwydo ar y fron yn aml yn gysylltiedig ag amddifadedd a thlodi. Dengys ystadegau'n ddiweddar fod y nifer isaf o achosion o fwydo ar y fron ymhliith mamau o alwedigaethau arferol a galwedigaethau llaw, a'r rheini sydd â'r lefelau addysgol isaf. Her arall yw bod nifer o famau newydd yn gadael yr ysbty'n fuan ar ôl rhoi genedigaeth, ymhen ychydig oriau weithiau, cyn cael cyfle i sefydlu patrwm bwydo ar y fron. Felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen gwneud mwy o waith mewn ysbtyai ac ym maes ôl-ofal i sicrhau bod mamau, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai breintiedig, yn cael eu hannog i fwydo ar y fron, ac ar ôl iddynt ddechrau gwneud hynny eu bod yn cael eu cefnogi i barhau?

Brian Gibbons: You are right; there is a stark social gradient in breast-feeding, and if we are committed to giving our children the best start in life, breast-feeding must be part of that overall strategy. It not only helps psychologically, but many physical illnesses benefit from it. It is even possible that osteoporosis in mothers may be reduced by breast-feeding, which links to an earlier question. We are working with the United Nations Children's Fund UK's baby-friendly initiative in hospitals across Wales, and, already, seven hospitals are compliant with best practice. You will be pleased to know that the Princess of Wales Hospital in Bridgend is one such hospital. I am equally pleased that another such hospital is the Neath Port Talbot Hospital, in my constituency. There are six more maternity units working towards compliance with the UNICEF standards, so, hopefully, we will see approximately 60 per cent to 70 per cent of new babies in Wales born into units that are able to deliver best practice, as outlined in the baby-friendly initiative. In terms of sustaining breast-feeding, the current strategy of promoting breast-feeding in public places, which we launched a few weeks ago, to try to get rid of some of the stigma associated with that, makes an important contribution. The fact that mothers cannot breast-feed in particular places, such as cafés and other public amenities, without the risk of being stigmatised is a big problem. The breast-feeding welcome scheme, which is to be promoted across Wales, will, hopefully, contribute towards not only making breast-feeding the normal option, but positively facilitating its practice in public places.

Brian Gibbons: Yr ydych yn llygad eich lle; mae graddiant cymdeithasol amlwg o ran bwydo ar y fron, ac os yr ydym wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant, rhaid i fwydo ar y fron fod yn rhan o'r strategaeth gyffredinol honno. Nid yn unig y mae'n helpu'n seicolegol, ond mae o fudd gyda llawer math o salwch corfforol. Mae hyd yn oed yn bosibl y gallai osteoporosis mewn mamau fod yn llai drwy fwydo ar y fron, sy'n cysylltu â chwestiwn cynharach. Yr ydym yn cydweithio â menter sy'n garedig i fabanod yn y DU gan Gronfa Blant y Cenhedloedd Unedig mewn ysbytai ledled Cymru, ac eisoes mae saith ysbyty yn gydymffurfio ag arfer gorau. Byddwch yn falch clywed bod Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn un o'r ysbytai hynny. Yr wyf yr un mor falch fod Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, sydd yn fy etholaeth i, yn un arall. Mae chwe uned famolaeth arall yn gweithio tuag at gydymffurfio â safonau UNICEF. Felly, y gobaith yw y gwelwn tua 60 y cant i 70 y cant o fabanod newydd yng Nghymru yn cael eu geni mewn unedau sy'n gallu sicrhau arfer gorau, fel yr amlinellir yn y fenter sy'n garedig i fabanod. O ran cynnal bwydo ar y fron, mae'r strategaeth bresennol o hybu bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus, a lansiwyd gennym ychydig wythnosau'n ôl, i geisio dileu rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â hynny, yn gyfraniad pwysig. Mae'rffaith na all mamau fwydo ar y fron mewn mannau penodol, megis caffis ac amwynderau cyhoeddus eraill, heb wynebu risg cael eu stigmateiddio yn broblem fawr. Gobeithio y bydd y cynllun i groesawu bwydo ar y fron, a gaiff ei hybu ledled Cymru, nid yn unig yn cyfrannu at wneud bwydo ar y fron yn ddewis normal, ond yn ei hwyluso'n gadarnhaol mewn mannau cyhoeddus.

Gwasanaethau Gofal yn y Gymuned Community Care Services

Q9 Peter Black: Will the Minister make a statement on community care services in South Wales West? OAQ0911(HSS)

Brian Gibbons: The legal responsibility for assessing and commissioning social care services rests with local authorities. The

C9 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau gofal yn y gymuned yng Ngorllewin De Cymru? OAQ0911(HSS)

Brian Gibbons: Awdurdodau lleol sy'n gyfreithiol gyfrifol am asesu a chomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Assembly Government's responsibility is to provide the policy framework, guidance, regulation, national minimum standards and inspection regime to support such services. Planning the provision and delivery of NHS care within a community setting is the responsibility of local health boards.

Peter Black: You will, of course, be aware that the current proposals by the Swansea Local Health Board to close Fairwood hospital and ward 1 of Hill House are based on the supposition that those services will be picked up by additional community care services. However, no additional money seems to be being made available by the local health board for that. In fact, the services that they are relying upon are still in the pilot stage. If these proposals go ahead, and, as a result, additional costs are placed on the local authority social services department, do you think that the Assembly should give the City and County of Swansea Council additional money to pick up the additional costs that it will have to meet as a result of the LHB not consulting or involving it in this process?

Brian Gibbons: Clearly, this issue may not achieve local resolution and I could ultimately have an adjudicative role in this matter, so I cannot present a definitive view on how this is developing. However, it should be recognised that we have supplied an extra £45 million this year to allow adult social care services to be improved, and we know that spending on adult social services has increased by some 40 to 60 per cent in total over recent years.

We need to move away from the mentality that it is not possible to effect change without putting money into the system. Often, inefficient and old-fashioned services are not only not good enough for patients, but the more expensive option. Often by modernising the service, you give patients a better service from the point of view of meeting their needs and free up resources to allow the delivery of better quality services for older people. I do not think that the initial instinct in following any modernisation agenda should be to come to the Assembly,

Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw darparu'r fframwaith polisi, canllawiau, rheoliadau, safonau cenedlaethol gofynnol a chyfundrefn arolygu i gefnogi gwasanaethau felly. Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gynllunio darparu a chyflwyno gofal y GIG mewn cymunedau.

Peter Black: Fe fyddwch, wrth gwrs, yn gwybod bod cynigion presennol Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe i gau ysbyty Fairwood a ward 1 yn Hill House yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu gan wasanaethau gofal cymunedol ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd lleol ar gyfer hynny. Yn wir, mae'r gwasanaethau y mae'n dibynnu arnynt yn dal i gael eu treialu. Os gweithredir y cynigion hyn, ac os bydd adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol o ganlyniad yn tynnu costau ychwanegol, a ydych yn credu y dylai'r Cynulliad roi arian ychwanegol i Gyngor Dinas a Sir Abertawe i dalu'r costau ychwanegol a fydd ganddo am fod y BILL wedi methu ymgynghori neu ei gynnwys yn y broses hon?

Brian Gibbons: Yn amlwg, mae'n bosibl na chaiff y mater hwn ei ddatrys yn lleol, ac yn y pen draw gallai fod angen imi fod yn ddyfarnwr. Felly ni allaf roi barn bendant am y ffordd y mae hyn yn datblygu. Fodd bynnag, dylid cydnabod ein bod wedi darparu £45 miliwn ychwanegol eleni i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a gwyddom fod yr arian a gaiff ei wario ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion wedi cynyddu tua 40 i 60 y cant dros y blynnyddoedd diwethaf.

Mae angen i ni roi'r gorau i feddwl nad yw'n bosibl sicrhau newid heb fuddsoddi arian yn y system. Yn aml, mae gwasanaethau aneffeithlon a hen ffasiwn nid yn unig heb fod yn ddigon da i gleifion, ond hefyd hwy yw'r dewis drutaf. Drwy foderneiddio'r gwasanaeth, caiff cleifion yn aml well gwasanaeth o ran diwallu eu hanghenion a sicrhau bod adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaethau o well safon i bobl hŷn. Ni chredaf mai gofyn i'r Cynulliad, nac i neb arall, ble mae'r arian ychwanegol ddylai fod yn reddf gychwynnol wrth ddilyn unrhyw

or anyone else, to see where the extra money is. The first challenge is whether we can redesign services that are more in line with clients' or service users' needs, and then, if extra money can be made available, the issue is how we can plough that back into the frontline.

The Presiding Officer: Question 10 was grouped with question 1.

agenda foderneiddio. Yr her gyntaf yw a allwn ailgynllunio gwasanaethau sy'n fwy unol ag anghenion cleientiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau, ac wedyn, os gellir darparu mwy o arian, y mater yw sut y gellir ei fuddsoddi yn ôl yn y rheng flaen.

Y Llywydd: Cafodd cwestiwn 10 ei osod gyda chwestiwn 1.

Canser y Coluddyd Bowel Cancer

Q11 Glyn Davies: What action is the minister taking to promote early diagnosis of bowel cancer in Wales? OAQ0884(HSS)

C11 Glyn Davies: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo diagnosis cynnar o ganser y coluddyd yng Nghymru? OAQ0884(HSS)

Brian Gibbons: I know that you have a personal interest in this subject. Screening is an important way of detecting bowel cancer at an early stage, which is why I have asked Health Commission Wales, working with the NHS and the cancer services co-ordinating group, to develop formal proposals for the phased introduction of a national bowel cancer screening programme for people aged between 50 and 74 in Wales.

Brian Gibbons: Gwn fod gennych ddiddordeb personol yn y pwnc hwn. Mae sgrinio'n ffordd bwysig i ddarganfod canser y coluddyd yn gynnar, a dyna pam yr wyf wedi gofyn i Gomisiwn Iechyd Cymru, gan weithio gyda'r GIG a'r grŵp cydgysylltu gwasanaethau canser, ddatblygu cynigion ffurfiol ar gyfer cyflwyno fesul cam raglen genedlaethol i sgrinio canser y coluddyd ar gyfer pobl rhwng 50 a 74 oed yng Nghymru.

Glyn Davies: I am pleased to hear that, Minister. Last week, I was also pleased that you ratified a drug that will extend the lives of those suffering from acute-stage bowel cancer. However, you and I know that those diagnosed at an early stage can make a complete recovery from the disease. Can you give me a timescale for when the screening test will be introduced in Wales? There has been a lot of publicity on this in England, and we had anticipated that this would already be up and running. Approving an early screening test to diagnose people at an early stage will save a huge number of lives.

Glyn Davies: Yr wyf yn falch clywed hynny, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, yr oeddwn hefyd yn falch eich clywed yn cadarnhau cyffur a fydd yn ymestyn bywydau pobl sydd â chanser aciwt y coluddyd. Fodd bynnag, gwyddom ein dau y gall darganfod y clefyd yn gynnar olygu gwella'n llwyr. A allwch roi amserlen imi ar gyfer cyflwyno'r prawf sgrinio yng Nghymru? Rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i hyn yn Lloegr, ac yr oeddem wedi disgwyl y byddai ar waith eisoes. Bydd cymeradwyo prawf sgrinio cynnar i roi diagnosis i bobl yn gynnar yn achub nifer enfawr o fywydau.

2.40 p.m.

Brian Gibbons: Just for the record, the drug that I recently ratified is for the treatment of very advanced bowel cancer, rather than treatment of the early stage of the disease. The reason why England may seem to have a lead on us in this area is that the initial pilot work undertaken to validate the screening process was undertaken, and Wales was not

Brian Gibbons: Er gwybodaeth, diben y cyffur a gadarnhawyd gennyl yn ddiweddar yw trin canser y coluddyd sydd wedi datblygu, yn hytrach na thrin y clefyd yn gynnar. Y rheswm pam mae'n ymddangos bod Lloegr efallai ar y blaen yw nad oedd Cymru'n un o'r ardaloedd sgrinio pan wnaed y gwaith peilot cychwynnol i ddilysu'r broses

one of the screening locations. So, to the extent that the pilot schemes are still operating in England, it has a lead. This year, we have put aside approximately £500,000 to undertake the necessary training for endoscopists, who will be a key part of the screening process. Hopefully, we will be able to initiate the screening programme in the following year. The screening programme that we are proposing in Wales, in terms of its age spectrum, is far more ambitious than what is being proposed in England. Our screening age group is 50 to 74-year-olds, whereas the English proposals concentrate on people aged in their 60s.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for all of those detailed answers.

sgrinio. Felly, i'r graddau bod y cynlluniau peilot ar waith yn Lloegr o hyd, mae ar y blaen. Eleni, yr ydym wedi clustnodi tua £500,000 i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol i endosgopwyr, a fydd yn rhan allweddol o'r broses sgrinio. Gobeithio y gallwn gychwyn y rhaglen sgrinio y flwyddyn ganlynol. Mae'r rhaglen sgrinio yr ydym yn ei chynnig yng Nghymru, o ran oedran, lawer yn fwy uchelgeisiol nag a gynigir yn Lloegr. Ein grŵp oedran sgrinio yw 50 i 74 oed, ond mae'r cynigion yn Lloegr yn canolbwytio ar bobl yn eu 60au.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, am yr holl atebion manwl hynny.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Adeiladau Hanesyddol Historical Buildings

Q1 Catherine Thomas: What is being done to safeguard historical buildings in Wales? OAQ0870(CWS)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The Welsh Assembly Government, through grant programmes and through the use of our statutory powers and our policy initiatives protects, promotes and presents the historic environment of Wales. We do this with the support of our public-sector partners and organisations such as the Heritage Lottery Fund and voluntary organisations.

Catherine Thomas: Cwrt Farm in Pembrey in my constituency is the largest surviving pre-Renaissance manor house in Carmarthenshire. Although it is currently derelict and in a state of disrepair, the structure remains and has been shown to be viable for restoration. As you know, Minister, Llanelli has a rich cultural heritage, with many sites of historical interest. May I extend an invitation to you to visit Cwrt Farm and meet the friends of Cwrt Farm, which is a group that has been formed to promote the restoration of what could be, once again, a very impressive building in my constituency?

C1 Catherine Thomas: Beth sy'n cael ei wneud i ddiogelu adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ0870(CWS)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy raglenni grant a defnyddio'n pwerau statudol a'n mentrau polisi, yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn cyflwyno amgylchedd hanesyddol Cymru. Gwnawn hyn gyda chymorth ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a sefydliadau megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri a sefydliadau gwirfoddol.

Catherine Thomas: Fferm y Cwrt ym Mhen-bre yn fy etholaeth i yw'r maenordy mwyaf yn sir Gaerfyrddin sydd wdi goroesi o'r cyfnod cyn y Dadeni. Er ei fod yn adfail ar hyn o bryd a bod angen ei atgyweirio, mae'r adeiledd yn dal ar ei draed a dangoswyd y gellid ei adfer. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae gan Lanelli dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gyda nifer o safleodd o ddiddordeb hanesyddol. Hoffwn eich gwahodd i ymweld â Fferm y Cwrt a chwrdd â chyfeillion Fferm y Cwrt, grŵp a sefydlwyd i hyrwyddo'r broses o adfer adeilad a allai, unwaith eto, fod yn adeilad

mawreddog yn fy etholaeth.

Alun Pugh: Thank you. I know all about Llanelli House; it is a very fine structure. I know very little about Cwrt Farm, but I would be happy to see whether we can synchronise our diaries and organise a site visit.

Peter Black: There are buildings that are slightly less historic. A number of buildings of historic value are still in use and are in private ownership or are owned by local authorities. Whereas the more historic buildings can access grants through Cadw, those buildings cannot always access the amount of money needed to bring them up to the standard for use. What are you doing to look at ways of ensuring that the historic environment that we have at present, including more recent buildings, such as, for example, Swansea Guildhall, is being preserved? What resources can be made available to help local authorities and other owners to carry out the necessary repairs to keep those buildings in good repair?

Alun Pugh: Diolch. Gwn am Dŷ Llanelli; mae'n adeiledd ysblennydd. Ychydig iawn a wn am Fferm y Cwrt, ond byddem yn fwy na pharod i weld a allwn gydamseru ein dyddiaduron a threfnu ymweliad â'r safle.

Peter Black: Mae yna adeiladau sydd ychydig yn llai hanesyddol. Mae nifer o adeiladau o werth hanesyddol yn cael eu defnyddio o hyd, a naill ai'n eiddo preifat neu ym meddiant awdurdodau lleol. Tra gall yr adeiladau mwy hanesyddol gael grantiau drwy Cadw, ni all yr adeiladau hynny bob amser gael yr arian angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cyrraedd safon lle y gellir eu defnyddio. Beth yr ydych yn ei wneud i edrych ar ffyrdd i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol sydd gennym ar hyn o bryd, gan gynnwys adeiladau mwy diweddar, megis Neuadd y Ddinas Abertawe, er enghraifft, yn cael eu diogelu? Pa adnoddau a all gael eu darparu i helpu awdurdodau lleol a pherchnogion eraill i wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol i sicrhau bod yr adeiladau hynny'n cael eu cadw mewn cyflwr da?

Alun Pugh: We have a strong statutory framework that covers listing, but we could not possibly cover all repairs to all listed buildings from tax sums alone. The whole issue of the historic environment will be reviewed in a joint paper by the DCMS and the Welsh Assembly Government, which will lead to legislation in due course. So, there will be a major consultation on this and, no doubt, you will want to have an input into that consultation.

Alun Pugh: Mae gennym fframwaith statudol cryf sy'n cwmpasu rhestru, ond ni allem dalu am yr holl waith atgyweirio y mae ei wneud ar bob adeilad rhestredig drwy drethi yn unig. Caiff yr amgylchedd hanesyddol ei adolygu mewn papur ar y cyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn arwain at ddeddfwriaeth maes o law. Felly, bydd ymgynghori helaeth ar hyn, ac yn sicr byddwch am gyfrannu at yr ymgynghori hwnnw.

Hyrwyddo'r Gymraeg (Gwynedd) Promoting the Welsh Language (Gwynedd)

C2 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd? OAQ0876 (CWS)

Alun Pugh: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n galed drwy ein bwrdd iaith a'n partneriaid i hybu'r Gymraeg ym mhob rhan

Q2 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote the Welsh language in Gwynedd? OAQ0876(CWS)

Alun Pugh: The Assembly Government is working hard through our language board and other partners to promote the Welsh

o Gymru, gan gynnwys Gwynedd, wrth gwrs. Yr ydym yn gwneud hyn drwy nifer o gynlluniau cyffrous, fel Twf a phecynnau symud i Gymru.

Alun Ffred Jones: Un o'r canolfannau hynny sy'n hyrwyddo dysgu Cymraeg fel ail iaith yw canolfan iaith Nant Gwrtheyrn, sy'n ganolfan iaith genedlaethol—deallaf eich bod wedi bod yno ar gyrsiau. Hyd y gwelaf i, nid oes sôn am gyrsiau preswyl yn yr adolygiad o ddysgu Cymraeg i oedolion. A ydych yn gweld lle i'r ganolfan hwn yn y dyfodol, ac a wnewch drafod gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynglŷn â'r diffyg hwn yn y ddarpariaeth i'r dyfodol er mwyn sicrhau dyfodol canolfan sydd wedi gwneud gwaith da iawn?

Alun Pugh: Byddwn yn hapus iawn i drafod hynny gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Credaf fod Nant Gwrtheyrn yn gwneud cyfraniad pwysig yng Nghymru.

Bryngle Williams: What support will you give to help small businesses in north-east Wales improve bilingual services to customers and to increase the opportunities for Welsh learners and fluent speakers to use the language outside the classrooms?

Y Llywydd: Trefn. A wnei di newid hynny i 'ogledd-orllewin Cymru', Bryngle, er mwyn bod mewn trefn?

Bryngle Williams: Mae'n ddrwg gennyf. Fe ddywedaf 'gogledd Cymru', felly.

Y Llywydd: Yn arbennig Gwynedd.

Alun Pugh: The private sector has an important contribution to make in moving towards a bilingual Wales. I am not in favour of having major new legislation in respect of the private sector, but support and encouragement for the private sector, for large and small organisations, will form an important part of the Welsh Language Board's private-sector strategy. There will be an announcement on this shortly.

language in every part of Wales, including of course in Gwynedd. We are doing this through many exciting initiatives, such as Twf, and moving to Wales welcome packs.

Alun Ffred Jones: One of the centres promoting the teaching of Welsh as a second language is Nant Gwrtheyrn language centre, which is a national language centre—I understand you have attended courses there. As far as I can see, there is no mention of residential courses in the review of teaching of Welsh to adults. Do you see a place for this centre in the future, and will you discuss with the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills this deficiency in future provision in order to safeguard the future of a centre which has done very good work?

Alun Pugh: I should be happy to discuss that with Jane Davidson, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills. I believe Nant Gwrtheyrn makes an important contribution in Wales.

Bryngle Williams: Pa gymorth a rowch i helpu busnesau bach yng ngogledd-ddwyrain Cymru i wella gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid, a chynyddu'r cyfleoedd i bobl sy'n dysgu Cymraeg a siaradwyr rhugl ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth?

The Presiding Officer: Order. Will you change that to 'north-west Wales', Bryngle, so that you are in order?

Bryngle Williams: I apologise. I will then say 'north Wales'.

The Presiding Officer: Particularly Gwynedd.

Alun Pugh: Mae gan y sector preifat gyfraniad pwysig i'w wneud i symud tuag at Gymru ddwyieithog. Nid wyf o blaid cael deddfwriaeth newydd sylweddol ar gyfer y sector preifat, ond bydd cefnogaeth ac anogaeth i'r sector preifat, i sefydliadau mawr a bach, yn rhan bwysig o strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y sector preifat. Gwneir datganiad am hynny'n fuan.

Supporting the Welsh Language among Young People

Q3 Sandy Mewies: What is the Welsh Assembly Government doing to promote and support the Welsh language among young people? OAQ0868(CWS)

Alun Pugh: The Welsh Assembly Government is acutely aware of the fact that young people are the key to the future of the Welsh language and we are working hard to maximise the opportunities for young people to use the language in everyday and social situations.

Sandy Mewies: You recall that representatives from Ysgol Maes Garmon in my Delyn constituency came to the Assembly to present the Urdd message of peace and goodwill to Assembly Members and members of the public, and it was well received. The young people presented a meaningful and well-thought-out message through the medium of Welsh and also incorporated song and dance to convey their meaning. I went to the Urdd eisteddfod held in north Wales this year and was delighted to see so many children and young people—and older people—celebrating the Welsh language, as Welsh-speakers and learners, in the sunshine. Do you agree that by encouraging children from all backgrounds to participate and to use Welsh in fun, engaging and inclusive ways we will better promote the use of the language throughout Wales?

Alun Pugh: I do. As you say, fun is an important part of presenting that positively to young people. It was very good to see representatives from Ysgol Maes Garmon here on 17 May. I know that that school, and many other schools in your constituency, made an important contribution to the successful Urdd eisteddfod in Rhuthun a couple of weeks ago.

Lisa Francis: The Twf project, now in its sixth year, the wonderful work done by the Urdd, which we have just heard about, young farmers' clubs and the Mudiad Ysgolion Meithrin are all excellent examples of how the Welsh Language Board has created opportunities for young people to use Welsh in a wholly natural and fun way. In future, how does your Government intend to achieve

C3 Sandy Mewies: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ymysg pobl ifanc? OAQ0868(CWS)

Alun Pugh: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol iawn mai pobl ifanc yw'r allwedd i ddyfodol yr iaith Gymraeg, ac yr ydym yn gweithio'n galed i roi cynifer â phosibl o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd a sefyllfaoedd cymdeithasol.

Sandy Mewies: Fe gofiwch i gynrychiolwyr o Ysgol Maes Garmon yn fy etholaeth i yn Nelyn ddod i'r Cynulliad i gyflwyno neges heddwch ac ewyllys da yr Urdd i Aelodau'r Cynulliad ac i'r cyhoedd, ac fe gawsant groeso da. Cyflwynodd y bobl ifanc neges ystyrlon wedi ei llunio'n dda drwy gyfrwng y Gymraeg, a defnyddiwyd canu a dawnsio hefyd i gyfleoedd eu hystyr. Euthum i eisteddfod yr Urdd a gynhalwyd yn y gogledd eleni, ac yr oeddwn wrth fy modd yn gweld cynifer o blant a phobl ifanc—a phobl hŷn—yn dathlu'r iaith Gymraeg, fel siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, yn yr haul. A ydych yn cytuno y byddwn yn hybu defnyddio'r iaith yn well ledled Cymru drwy annog plant o bob cefndir i gymryd rhan ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd sy'n gynhwysol, yn atyniadol ac yn hwyl?

Alun Pugh: Ydwyt. Fel y dywedwch, mae hwyl yn rhan bwysig o gyflwyno hynny'n gadarnhaol i bobl ifanc. Yr oedd yn braf iawn gweld cynrychiolwyr o Ysgol Maes Garmon yma ar 17 Mai. Gwn fod yr ysgol honno, a llawer un arall yn eich etholaeth, wedi gwneud cyfraniad pwysig i eisteddfod lwyddiannus yr Urdd yn Rhuthun rai wythnosau'n ôl.

Lisa Francis: Mae cynllun Twf, sydd yn ei chweched flwyddyn bellach, y gwaith gwych y mae'r Urdd yn ei wneud fel yr ydym newydd glywed, clybiau ffermwyr ifanc a'r Mudiad Ysgolion Meithrin i gyd yn engrifftiau ardderchog o'r modd y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd hollol naturiol a hwyliog. Yn y

the softer side of the work that the Board currently undertakes, such as promoting education, increasing the use of Welsh among young people, promoting pop music and activities among young farmers? What research have you undertaken to ensure that your Government is able to undertake all of that work effectively?

Alun Pugh: A great deal of research shows that what you call the softer side is important. The business of creating opportunities for people to use the Welsh language in a social situation is important. That is why the Assembly Government has invested an extra £28 million in the ‘Iaith Pawb’ process. I look forward to receiving your support in the budgetary process later this year.

Lisa Francis: Returning to my initial question, what consultation have you carried out with the Welsh Language Board’s partners in respect of research about how your Government will fulfil the role of supporting and promoting the Welsh language among young people? Also, what documentary evidence can you provide as to how your Government intends to pursue this?

Alun Pugh: The overall policy is set out in ‘Iaith Pawb’. We will have an important debate on the ‘Iaith Pawb’ process here in a few weeks’ time. Detailed conversations with the Welsh Language Board over matters such as this take place all the time—the most recent was held this morning.

Ieuan Wyn Jones: Gwn eich bod yn ymwybodol fod consensws yn dechrau datblygu o safbwyt deddfu pellach ar yr iaith. Byddai hynny’n hwbc i’r defnydd o’r Gymraeg gan bobl ifanc. Mae’r consensws hwnnw bellach i’w weld mewn nifer fawr o fudiadau iaith ac ymhlieth nifer o’r gwrthbleidiau yn y Cynulliad. Mae’n ymddangos felly mai’r unig blaid wleidyddol yng Nghymru sy’n gwrthod y syniad o ddeddfu pellach ar yr iaith yw eich plaid chi. Hoffwn gael eich barn ar y ffaith bod y consensws hwn yn dechrau amlygu ei hun o gwmpas y syniad o hawlau ieithyddol a

dyfodol, sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu cyflawni ochr feddalach y gwaith y mae’r Bwrdd yn ei wneud ar hyn o bryd, megis hybu addysg, cynyddu defnyddio’r Gymraeg ymysg pobl ifanc, hybu cerddoriaeth pop a gweithgareddau ymysg ffermwyr ifanc? Pa ymchwil sydd wedi ei wneud gennych i sicrhau y gall eich Llywodraeth ymgymryd â’r holl waith hwnnw’n effeithiol?

Alun Pugh: Mae llawer o waith ymchwil yn dangos bod yr hyn a alwch yn ochr feddalach yn bwysig. Mae’r gwaith o greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith Gymraeg mewn sefyllfa gymdeithasol yn bwysig. Dyna pam y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi £28 miliwn yn ychwanegol yn y broses ‘Iaith Pawb’. Edrychaf ymlaen at gael eich cefnogaeth yn y broses gyllidebol yn ddiweddarach eleni.

Lisa Francis: I ddychwelyd at fy nghwestiwn gwreiddiol, pa ymgynghori a fu rhyn goch a phartneriaid Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran ymchwilio i’r modd y bydd eich Llywodraeth yn cyflawni’r rôl o gefnogi a hybu’r iaith Gymraeg ymysg pobl ifanc? Hefyd, pa dystiolaeth ddogfennol y gallwch ei darparu am y ffordd y mae eich Llywodraeth yn bwriadu mynd i’r afael â hyn?

Alun Pugh: Mae’r polisi cyffredinol wedi ei osod allan yn ‘Iaith Pawb’. Cawn drafodaeth bwysig ar broses ‘Iaith Pawb’ yma ymhen ychydig wythnosau. Bydd sgyrsiau manwl gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch materion fel hyn yn digwydd drwy’r amser—cafwyd y sgwrs ddiweddaraf y bore yma.

Ieuan Wyn Jones: I know you are aware that consensus is emerging in terms of further legislation on the language. That would promote the use of the Welsh language by young people. That consensus now includes a number of language organisations and a number of the opposition parties in the Assembly. It appears that the only political party in Wales which rejects the idea of further legislation on language is your own party. I should like to hear your opinion on the fact that this consensus is beginning to emerge around the idea of linguistic rights, which would add to the responsibility of

fyddai'n ychwanegu at gyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i baratoi cynlluniau iaith. A allwch egluro yn union pam yr ydych yn erbyn y datblygiad hwnnw o hawliau ieithyddol?

2.50 p.m.

Alun Pugh: I believe that there is consensus in the Assembly about growing the number of Welsh speakers; we all agree that we want to see the number, and the proportion, of Welsh speakers in the population grow. However, there are legitimate political differences between our political parties on the best way to achieve that. Many Plaid Cymru Members want to see the Welsh language rights issue, and the whole issue of Welsh-language schemes, extended into the private sector. That is not the Welsh Assembly Government's view, and I do not believe that it is the Conservative Party's view either. There is consensus on taking the Welsh language forward, but there is not consensus on the means. I do not believe that a Quebec-style rights agenda, for example, is the best way forward.

public bodies to prepare language schemes. Can you explain exactly why you oppose that development of language rights?

Alun Pugh: Credaf fod consensws yn y Cynulliad ynghylch cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; yr ydym i gyd yn cytuno ein bod am weld nifer, a chyfran, y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth yn tyfu. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau gwleidyddol diliys rhwng ein pleidiau gwleidyddol o ran y ffordd orau i gyflawni hynny. Mae nifer o Aelodau Plaid Cymru am weld mater hawliau'r iaith Gymraeg, a holl fater cynlluniau iaith Gymraeg, yn ymestyn i'r sector preifat. Nid dyna farn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac ni chredaf mai dyna farn y Blaid Geidwadol ychwaith. Mae yna gonsensws ar weithredu ar yr iaith Gymraeg, ond nid oes consensws ar y dulliau. Nid wyf yn credu mai agenda hawliau fel sydd yn Cwebéc, er enghraifft, yw'r ffordd orau ymlaen.

Digwyddiadau Diwylliannol Cultural Events

Q4 Val Lloyd: Will the Minister outline Welsh Assembly Government initiatives to ensure that cultural events in Wales reach out to a wide range of people? OAQ0833(CWS)

C4 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru yn estyn allan i ystod eang o bobl? OAQ0833(CWS)

Alun Pugh: We do this by providing support to all sorts of different types of events, and to all different parts of Wales. That includes everything from the national eisteddfod, which will be held in Swansea this year, to the Mostyn gallery—a different cultural event, situated in Llandudno, on the north Wales coast.

Alun Pugh: Gwnawn hyn drwy ddarparu cefnogaeth i bob math o wahanol ddigwyddiadau, ac i bob rhan o Gymru. Mae hynny'n cynnwys popeth o'r eisteddfod genedlaethol, a gynhelir yn Abertawe eleni, i oriel Mostyn—digwyddiad diwylliannol gwahanol, yn Llandudno, ar arfordir y gogledd.

Val Lloyd: I was particularly impressed by the programme of the Festival of Muslim Cultures. I welcome the fact that many events have taken place, or will take place, in Swansea, ranging from traditional music to Pakistani print-work. The festival is an excellent opportunity to discover different cultures, and will no doubt contribute to raising their profile on the UK artistic scene.

Val Lloyd: Gwnaeth rhaglen yr Wyl Diwylliannau Moslemaidd argraff arbennig arnaf. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal, neu i gael eu cynnal, yn Abertawe, yn amrywio o gerddoriaeth draddodiadol i waith print Pacistanaidd. Mae'r wyl yn gyfle ardderchog i ddysgu am wahanol ddiwylliannau, a bydd yn sicr yn cyfrannu at godi eu proffil ar

What steps has the Welsh Assembly Government taken to publicise this festival, in particular, and encourage attendance and involvement by people from all communities?

Alun Pugh: You are right to remind us that, although Wales is a small nation, we have many faiths and cultures. The question of marketing the arts is important, which is why the Assembly Government, through the Arts Council of Wales, provides substantial support for marketing arts events, big and small.

Owen John Thomas: Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn adeilad hardd, sy'n denu miloedd ar filoedd o bobl o wahanol gefndiroedd. Mae'n ddigon hawdd i bobl y Cymoedd ddod i Gaerdydd i ymweld â'r ganolfan, ond wrth ddychwelyd gyda'r nos, gallant deithio o orsaf y bae, ond ni allant fynd heibio i orsaf Heol y Frenhines; nid oes trenau i alluogi'r mwyafrif ohonynt i fynd i ben y cwm. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cynnal â'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i sierhau bod Trenau Arriva Cymru yn gwella ei wasanaeth, er mwyn dod â digwyddiadau diwylliannol o fewn cyrraedd amrediad ehangach o bobl, yn arbennig y rhai yn y Cymoedd?

Alun Pugh: People attend the wide-range of events that take place in the WMC via many means. Many use private cars, and it is interesting and encouraging to see the growth in coach traffic, which provides transport not just for the Valleys but for many other parts of Wales too. You are right that some parts of the rail network are not accessible very late at night, but it depends on which valley you are talking about. Andrew has many discussions with Arriva about matters such as timetabling patterns, which we are addressing as a Government.

Owen John Thomas: Mae'n amlwg nad ydych wedi meddwl yn ddyrys am hynny, ac ni allaf gymryd eich bod o ddifrif, felly, am ehangu'r amrediad o bobl a all fynychu digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru.

Will you give me a cast-iron promise that,

lwyfan celfyddydol y DU. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i hyrwyddo'r wyl hon, yn arbennig, ac i annog pobl o bob cymuned i ymweld â hi ac i gymryd rhan?

Alun Pugh: Yr ydych yn llygad eich lle yn ein hatgoffa bod yng Nghymru lawer ffydd a diwylliant, er mai cenedl fach ydym. Mae cwestiwn marchnata'r celfyddydau yn bwysig, a dyna pam mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn darparu cymorth sylweddol ar gyfer marchnata digwyddiadau celfyddydol, yn fawr a bach.

Owen John Thomas: The Wales Millennium Centre is a beautiful building, which attracts thousands of people from different backgrounds. It is easy enough for people from the Valleys to come to Cardiff to visit the centre, but when they return home in the evening, they can travel from the bay station but cannot go further than Queen Street station; there are no trains to take most of them back up to the top of the valley. What discussions are you having with the Minister for Enterprise, Innovation and Networks to ensure that Arriva Trains Wales improves its service, to bring cultural events within the reach of a wider range of people, especially people in the Valleys?

Alun Pugh: Bydd pobl yn mynchu'r ystod eang o ddigwyddiadau yn y Ganolfan drwy lawer dull. Mae nifer yn defnyddio ceir preifat, ac mae'n ddiddorol ac yn galonogol gweld cynnydd mewn traffig bysiau, sy'n darparu cludiant nid yn unig i'r Cymoedd ond i lawer rhan arall o Gymru hefyd. Yr ydych yn iawn i ddweud nad yw pob rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd ar gael yn hwyr iawn yn y nos, ond mae'n dibynnu am ba gwm yr ydych yn sôn. Bydd Andrew yn cael llawer o drafodaethau gydag Arriva ynghylch materion fel patrymau amserlennu, rhywbeth yr ydym yn ymdrin ag ef fel Llywodraeth.

Owen John Thomas: It is evident that you have not thought about that in great detail, and I cannot accept, therefore, that you are serious about increasing the variety of people who can access cultural events in Wales.

A rowch addewid cadarn imi y bydd yn

when the Ebbw Vale to Cardiff line is reopened, it will be possible for the people of Blaenau Gwent to visit the WMC in Cardiff, by travelling to and from the city by train? On reflection, should I perhaps put this question to the leader of Plaid Cymru, as it seems unlikely that your party will be in power when the line opens?

The Presiding Officer: Order. No Member of any group may ask the leader of his or her group a question that is directed to a Minister, and I do not deal in hypotheticals.

Alun Pugh: No, but it is fair to point out that it is not a hypothetical point; it is actually a Labour Government that has delivered that railway line to that community. My range of responsibilities as Minister for culture is very wide, but it does not include setting the train timetable from Ebbw Vale to Cardiff.

Mick Bates: Street markets, such as those held in many towns in Montgomeryshire, provide an excellent opportunity to reach a wide range of people. Previously, you have pledged your support for street markets. What action have you taken to co-ordinate cultural events, such as local singing or dancing groups, artists or storytellers, with street markets?

Alun Pugh: These events, by their nature, tend to be fairly small scale. They do not lend themselves readily to central planning; it is very much a bottom-up approach, but, as you know, substantial lottery support is available on a project basis to support street festivals. Street festivals and street markets have a very good track record of attracting people from all different social strata in Wales, which we would want to see continue.

Nick Bourne: The arts outside Cardiff initiative has provided valuable funds for theatres across Wales, including some £2 million a year for the Torch Theatre in Milford Haven and Theatr Brycheiniog in my area. That is important. I know that it is your intention to carry that on to 2007. Is it your policy that it should continue thereafter? I have been asked that question by the

bosibl i bobl Blaenau Gwent ymweld â'r Ganolfan yng Nghaerdydd drwy deithio i'r ddinas ac yn ôl ar y trêr pan ailagorir y llinell o Lynebwy i Gaerdydd? Wedi meddwl, ai i arweinydd Plaid Cymru y dylwn ofyn y cwestiwn hwn, efallai, gan ei bod yn edrych yn annhebygol y bydd eich plaid chi'n dal mewn grym pan fydd y llinell yn agor?

Y Llywydd: Trefn. Ni chaiff Aelod o unrhyw grŵp ofyn cwestiwn wedi ei gyfeirio at Weinidog i arweinydd ei grŵp, ac ni fyddaf fi'n ymdrin â damcaniaethau.

Alun Pugh: Nac ydych, ond mae'n ddigon teg sylwi nad pwynt damcaniaethol mohono; Llywodraeth Lafur sydd wedi darparu'r llinell reilffordd honno i'r gymuned honno. Mae fy amrywiol gyfrifoldebau fel Gweinidog yn eang iawn, ond nid yw'n cynnwys pennu amserlen y trêr o Lynebwy i Gaerdydd.

Mick Bates: Mae marchnadoedd stryd, fel y rhai a gynhelir mewn llawer tref yn sir Drefaldwyn, yn gyfle gwych i gyrraedd ystod eang o bobl. Yn y gorffennol, gwaethoch addewid i gefnogi marchnadoedd stryd. Pa gamau yr ydych wedi eu cymryd i gydgysylltu digwyddiadau diwylliannol, megis grwpiau canu neu ddawnsio lleol, artistiaid neu adroddwyr straeon, â marchnadoedd stryd?

Alun Pugh: Mae'r digwyddiadau hyn, yn eu hanfod, yn tuedd i fod yn rhai bach. Nid yw cynllunio canolog yn gweddu iddynt yn dda iawn; o'r gwaelod i fyny y maent yn gweithio i raddau helaeth. Ond fel y gwyddoch, mae cymorth sylweddol ar gael i gefnogi gwyliau stryd fesul prosiect. Mae gan wyliau stryd a marchnadoedd stryd hanes da o ddenu pobl o'r holl wahanol haenau cymdeithasol yng Nghymru, rhywbeth y byddem am ei weld yn parhau.

Nick Bourne: Mae menter y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd wedi rhoi arian gwerthfawr i theatrau ledled Cymru, gan gynnwys rhyw £2 filiwn y flwyddyn ar gyfer Theatr y Torch yn Aberdaugleddau a Theatr Brycheiniog yn fy ardal i. Mae hynny'n bwysig. Gwn mai eich bwriad yw parhau i wneud hynny tan 2007. A yw'n bolisi gennych y dylai barhau wedi hynny?

directors of both theatres and I do not know the answer.

Alun Pugh: It is certainly our intention to continue with a vigorous programme of financial support for the Arts Outside Cardiff. The sum of £2 million is currently in the baseline and we would like to see that continue. Future budget rounds are a matter for the Assembly as a whole, but the Assembly Government is not going to propose a major cut in the Arts Outside Cardiff budget.

Gofynnwyd hynny imi gan gyfarwyddwyr y ddwy theatr, ac ni wn beth yw'r ateb.

Alun Pugh: Yn sicr, mae'n fwriad gennym barhau rhaglen egniol o gymorth ariannol i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd. Mae'r swm o £2 filiwn yn y llinell sylfaenol ar hyn o bryd, a byddem am weld hynny'n parhau. Mater i'r Cynulliad cyfan yw cylchoedd cyllideb y dyfodol, ond nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i gynnig gostyngiad mawr yng nghyllideb y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd.

Datblygiad Opera The Development of Opera

Q5 David Melding: What measures are in place to support the development of opera in South Wales Central? OAQ0848(CWS)

Alun Pugh: The development of opera in Wales, including South Wales Central, is supported through a range of activities, from the internationally recognised Welsh National Opera to local operatic groups.

David Melding: Will the Minister join me in congratulating the Wales Millennium Centre for holding a whole *Ring Cycle* in November? I understand that the whole cycle sold out in a morning, which shows you what a wonderful initiative this is. I have signed up to that myself, so I declare an interest. Do you also agree that after the full rigours of a *Ring Cycle*, one might need to be soothed with a little more Mozart in future seasons?

There is also the new building, which we are in now, and of which we can all be proud in terms of its sustainability credentials. The location strategy will also deliver three new buildings in Merthyr Tydfil, Aberystwyth and Llandudno Junction that will attain the Building Research Establishment environmental assessment method 'excellent' standard. Part of the team involved in that is also working with the Carbon Trust to reduce the carbon footprint of each building. The team developing the Aberystwyth building is working with Ceredigion County Council to procure a biomass fuel supplier for the council office, schools and Assembly properties.

We continue to be active in the development of Wales's international sustainable development framework, which will significantly enhance our ability to help to deliver the United Nations' millennium development goals. It will complement UK Government actions and add value to the already excellent, but largely unsung, activity going on in Wales by the voluntary sector and some individuals. It is anticipated that the framework will be launched soon.

Dengys yr adroddiad fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud. Erbyn diwedd Mai, roedd 83 o'r 94 o ymrwymiadau naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael eu gweithredu, sy'n ffigur o 88 y cant. Mae rhai camau wedi cymryd yn hwy na'r disgwyl i'w rhoi ar waith, ond dylid cwblhau'r holl gamau gweithredu erbyn 2007.

Mae rhai meysydd yr hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad atynt. O ran y strategaeth amgylcheddol, bydd yr Aelodau'n gwybod iddi gael ei chyhoeddi ar 17 Mai ac mae'n tynnu sylw at yr heriau a wynebwn fel cenedl. Mae'n gosod allan ein gweledigaeth ar gyfer yr hyn y dymunwn ei gyflawni erbyn 2026 a sut y bwriadwn gyrraedd y nod. Mae newid yn yr hinsawdd yn thema ganolog yn y strategaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newid sylweddol mewn agweddau at newid yn yr hinsawdd, o amau cywirdeb y wyddoniaeth i dderbyn yr angen am gamau gweithredu brys. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd er mwyn gweithredu hyn.

Yn ogystal, rhaid sôn hefyd am yr adeilad newydd lle yr ydym yn awr. Gallwn oll ymfalchio ynddo am ei rinweddau cynaliadwyedd. Yn ogystal, o dan y strategaeth leoli caiff tri adeilad newydd eu codi ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno a fydd yn cyrraedd safon 'rhagorol' dull asesu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Mae rhan o'r tîm sy'n ymwneud â hynny hefyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i leihau ôl-troed carbon pob adeilad. Mae'r tîm sy'n datblygu'r adeilad yn Aberystwyth yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion i gael cyflenwr tanwydd bio-mäs ar gyfer swyddfa'r cyngor, ysgolion ac adeiladau'r Cynulliad.

Yr ydym yn parhau i ddatblygu fframwaith datblygu cynaliadwy rhwngwladol Cymru, a fydd yn gwella'n sylweddol ein gallu i helpu cyflawni nodau datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y mileniwm. Bydd yn ategu camau gweithredu'r DU ac yn ychwanegu gwerth atn y gweithgarwch sydd eisoes yn rhagorol, ond prin ei glod, sy'n cael ei wneud yng Nghymru gan y sector gwirfoddol a rhai unigolion. Rhagwelir y caiff y fframwaith ei lansio'n fuan.

The Wales spatial plan was adopted in November 2004, and is making real progress in terms of delivering sustainable development on the ground. Therefore, there has been progress over the course of the last year, but there is no room for complacency.

3.20 p.m.

The size of the challenge remains large, and the path is likely to get more difficult and rocky as we start to get to grips with issues, such as sustainable consumption and sustainable production. Two reports in recent weeks have reinforced this. In May, the round table on sustainable consumption, jointly hosted by the National Consumer Council and the Sustainable Development Commission, made recommendations to the UK Government on how to create consumer choices that stay within environmental limits. Just two weeks ago, the Expert Panel on Resources Management for Wales published a consultation document on potential high-level strategic actions for taking resource management forward, with particular emphasis on the business sector. Following consultation in July and August, it will be refining proposals for my consideration.

What is encouraging about these reports is how diverse sectors of our society are working together to tackle what are very difficult issues. Members will have seen a copy by now of the report, 'Sustainable Development in Wales: From Pioneer to Delivery' published by the UK Sustainable Development Commission. We invited the commission to contribute its views to our annual sustainable development reporting process.

There has been significant progress, for example, the inclusion of social and environmental criteria in the justification for the reopening of the Ebbw Vale railway line, the inclusion of key stakeholders in the drafting of the environment strategy, and the partnership model that has been put together in developing a waste management strategy between the Assembly, local government, social businesses and so forth. There is also

Mabwysiadwyd Cynllun Gofodol Cymru ym mis Tachwedd 2004, ac mae'n gwneud cynnydd gwirioneddol wrth sicrhau datblygu cynaliadwy ar lawr gwlad. Felly, bu cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oes lle i fod yn hunanfodlon.

Mae'n parhau'n her fawr, ac mae'n debygol y bydd y llwybr yn mynd yn fwy anodd a heriol wrth inni ddechrau mynd i'r afael â materion megis defnyddio cynaliadwy a chynhyrchu cynaliadwy. Atgyfnethwyd hyn gan ddau adroddiad yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ym mis Mai, cyflwynodd y ford gron ar ddefnydd cynaliadwy, a gynhalwyd ar y cyd gan y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, argymhellion i Lywodraeth y DU ar y ffordd i greu dewisiadau i ddefnyddwyr sy'n dal o fewn terfynau amgylcheddol. Bythefnos yn unig yn ôl, cyhoeddodd y Panel Arbenigol ar Reoli Adnoddau yng Nghymru ddogfen ymgynghori ar gamau gweithredu strategol lefel uchel posibl ar gyfer datblygu rheoli adnoddau, gyda phwyslais arbennig ar y sector busnes. Ar ôl ymgynghori ym mis Gorffennaf a mis Awst, bydd yn mireinio cynigion er mwyn imi eu hystyried.

Yr hyn sy'n galonogol am yr adroddiadau hyn yw'r ffordd y mae rhannau amrywiol o'n cymdeithas yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion anodd iawn. Erbyn hyn, bydd Aelodau wedi gweld copi o'r adroddiad 'Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru: O Arloesi i Gyflawni' a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU. Gwahoddwyd y comisiwn i gyfrannu ei farm at ein proses o gyflwyno adroddiad blynnyddol ar ddatblygu cynaliadwy.

Cafwyd cynnydd sylweddol, er enghraifft, cynnwys meinu prawf cymdeithasol ac amgylcheddol yn y cyflawnhad dros ailagor rheilffordd Glynebwyr, cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o lunio fersiwn draft y strategaeth amgylcheddol, a'r model partneriaeth a luniwyd wrth ddatblygu strategaeth rheoli gwastraff rhwng y Cynulliad, llywodraeth leol, busnesau cymdeithasol ac ati. Yn ogystal mae yna'r

the emerging international sustainable development framework and the strategy for education for sustainable development and global citizenship.

I welcome the Sustainable Development Commission's report; it is a helpful contribution to the ongoing development of our work. We have never been under any illusion other than that we know that this is a difficult and long-term agenda. We have had to rethink how things are done and challenge pre-conceived ideas about the right way forwards. The commission's recommendations are constructive and I will consider them carefully. There will be a revised sustainable development action plan later this year, which will take into account the commission's findings.

Turning to the amendments, we oppose amendment 1. We believe that the reason for the increase in the amount of residual municipal waste sent to landfill is because there has been more accurate data capture and an accurate estimate, probably for the first time, of the amount of waste produced in Wales. However, Members should also note that the recycling rate has increased, certainly over the past five years.

On amendment 2 and the green jobs strategy, that is already being done by means of the environmental goods and services programme. 'Wales: A Vibrant Economy' makes it clear that the Assembly Government already engages with a range of sectors, including energy and environmental-related sectors, which are of critical importance to the development of a sustainable economy.

On amendment 3, we want to see a fall in total carbon dioxide emissions as a result of greater resource efficiency, and not just a fall in the ratio of carbon dioxide to gross value added.

On amendment 4, TAN 8 already exists and it deals with renewable energy.

There has already been progress on the subject of amendment 5. The scheme itself contains information on what progress has

ffframwaith datblygu cynaliadwy rhyngwladol arfaethedig a'r strategaeth ar gyfer addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fydeang.

Yr wyf yn croesawu adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy; mae'n gyfraniad defnyddiol i ddatblygiad parhaus ein gwaith. Nid ydym erioed wedi'n twyllo'n hunain nad yw hon yn agenda anodd a hirdymor. Bu'n rhaid inni ailfeddwel sut y gwneir pethau, a herio syniadau blaenorol am y ffordd gywir ymlaen. Mae argymhellion y comisiwn yn adeiladol a byddaf hyn eu hystyried yn ofalus. Cynhyrchir cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy wedi ei ddiwygio yn ddiweddarach eleni, a bydd hwnnw'n ystyried darganfyddiadau'r comisiwn.

I droi at y gwelliannau, yr ydym yn gwrthwynebu gwelliant 1. Credwn mai'r rheswm dros y cynnydd mewn gwastraff trefol gweddilliol a anfonir i'w dirlenwi yw bod proses gywirach o ddal data erbyn hyn, ac amcangyfrif cywir, hwyrach am y tro cyntaf, o faint o wastraff a gynhyrchir yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai Aelodau hefyd sylwi ar y cynnydd yn y gyfradd ailgylchu, yn sicr dros y pum mlynedd diwethaf.

O ran gwelliant 2 a'r strategaeth swyddi gwyrd, mae hynny'n cael ei wneud eisoes drwy'r rhaglen nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn pwysleisio bod Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys ynni a sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, sydd o bwys hanfodol i ddatblygu economi gynaliadwy.

O ran gwelliant 3, dymunwn weld lleihad yng nghyfanswm y gollyngiadau carbon deuocsiad o ganlyniad i well effeithlonrwydd adnoddau, nid dim ond lleihad yn y gymhareb carbon deuocsiad a gwerth gros ychwanegol.

O ran gwelliant 4, mae TAN 8 yn bodoli eisoes ac mae'n ymdrin ag ynni adnewyddadwy.

Cafwyd cynnydd eisoes ar bwnc gwelliant 5. Mae'r cynllun ei hun yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaed eisoes, a

already been made, and the action plan will outline what remains to be done.

We will accept amendment 6, because it is correct in stating that there is an omission, which will need to be put right. However, fortunately, that is a matter of process rather than a fundamental one, but it is important to realise that it has been overlooked and needs to be dealt with.

On amendment 7, there are no plans to devolve, or to seek the devolution of, building regulations at this time, but the planning system can do a great deal more to deliver sustainable development and construction. We are moving forward with that over the course of the next months and years, particularly building on the good work that has already been done on that by the Design Commission for Wales.

On amendment 8, I refer Members to the fact that the climate change action adaptation plan is to be produced, and the question of reducing greenhouse gas emissions is already contained in the environment strategy for Wales action plan.

On amendment 10, our sustainable development duty, as a corporate body, requires an independent effectiveness report every four years, after each election. In fact, that has come a little early this year, because the UK Sustainable Development Commission has contributed to this year's annual report. Therefore, there is external monitoring and peer review of the work that we do, so both the Assembly and the general public can be assured that the work that we are doing is effective. I put before the Assembly this year's report on the sustainable development scheme.

Mick Bates: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 1: add a new point at the end of the motion:

regrets the increase in the amount of waste not recycled or composted per person in Wales.

I propose amendment 2. At the end of the

bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu'r hyn sydd eto i'w wneud.

Byddwn yn derbyn gwelliant 6, gan ei fod yn gywir wrth ddweud bod yna wall y bydd angen ei unioni. Fodd bynnag, yn ffodus mater o broses yw hwnnw yn hytrach na mater sylfaenol, ond mae'n bwysig sylweddoli iddo gael ei anwybyddu a bod angen mynd i'r afael ag ef.

O ran gwelliant 7, nid oes unrhyw gynlluniau i ddatganoli, nac i geisio datganoli, rheoliadau adeiladu ar hyn o bryd, ond gall y system gynllunio wneud llawer mwy i sicrhau datblygu ac adeiladu cynaliadwy. Byddwn yn datblygu hynny dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf, gan adeiladu'n arbennig ar y gwaith da a wnaed ar hynny eisoes gan Gomisiwn Dylunio Cymru.

O ran gwelliant 8, cyfeiriaf Aelodau at y ffaith fod cynllun gweithredu addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd i gael ei gynhyrchu, ac mae cwestiwn lleihau gollyngiadau nwyon ty gwydr wedi'i gynnwys eisoes yng nghynllun gweithredu strategaeth amgylcheddol Cymru.

O ran gwelliant 10, mae ein dyletswydd datblygu cynaliadwy, fel corff corfforaethol, yn ei gwneud yn ofynnol cael adroddiad annibynnol ar effeithiolrwydd bob pedair blynedd, ar ôl pob etholiad. Mewn gwirionedd, daeth hynny braidd yn gynnar eleni, oherwydd bod Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU wedi cyfrannu at adroddiad blynnyddol eleni. Felly, mae yna fonitro allanol ac adolygiad cymheiriad o'r gwaith a wnawn, fel y gellir sicrhau'r Cynulliad a'r cyhoedd fod y gwaith a wnawn yn effeithiol. Cyflwynaf adroddiad eleni ar y cynllun datblygu cynaliadwy gerbron y Cynulliad.

Mick Bates: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiweddu y cynnig:

yn gresynu at y cynnydd mewn gwastraff y pen yng Nghymru nad yw'n cael ei ailgylchu na'i gompostio.

Cynigiaf welliant 2. Ar ddiweddu y cynnig:

motion:

instructs the Assembly Government to develop a green jobs strategy in order to do more to assist and promote green businesses and industries.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Assembly Government to publish an annual indicator in the sustainable development report that clearly measures economic growth against carbon dioxide emissions.

Thank you for many of the things that you said in your address today. However, as I go through the rationale, I hope that some of the Members from the Labour Party sitting behind you will change their minds about amendments 1, 2 and 3, given that your arguments, in my view, are not based on rational debate, and that, furthermore, you do not have the figures to suggest that you need to reject them.

I accept that it is no easy option to change behaviour. In many ways, we are about something different here. The sustainable development duty that we have in section 121 of the Government of Wales Act 1998 gives Wales a great opportunity to lead the world. In many ways, the rhetoric emanating from the Minister has reflected a genuine consensual desire here to achieve many of the points in the sustainable development action plan as well as a number of the points that are in the new environment strategy, because the two are closely related.

Our amendment 1 regrets the increase in the amount of waste that is not recycled or composted per person in Wales. The Minister says that it is just a question of data. Where have you been all of these years, Minister? Get the data right. The figures show clearly that the amount of waste going to landfill per person in Wales has gone up. How can you reject the amendment? We are helping you, with this amendment, to improve things in Wales. So, let us have a little honesty in your rationale, which is so weak. If it is so weak, why do you not admit that you failed to

yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd er mwyn gwneud rhagor i gynorthwyo a hyrwyddo busnesau a diwydiannau gwyrdd.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiweddu cynnig:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi dangosydd blynnyddol yn yr adroddiad datblygu cynaliadwy sy'n mesur yn glir y twf economaidd o'i gymharu â'r carbon deuocsiad a ryddheir.

Diolch ichi am nifer o'r pethau a ddywedwyd yn eich anerchiad heddiw. Fodd bynnag, wrth imi fynd drwy'r rhesymeg, gobeithio y bydd rhai o Aelodau'r Blaid Lafur sy'n eistedd y tu ôl ichi yn newid eu meddyliau am welliannau 1, 2 a 3, o gofio nad yw eich dadleuon, yn fy marn i, yn seiliedig ar ddadl resymegol, ac at hynny nad yw'r ffigurau gennych i awgrymu bod angen ichi eu gwrthod.

Derbyniaf nad yw'n ddewis hawdd newid ymddygiad. Mewn llawer ffordd, yr ydym yn sôn am rywbeth gwahanol yma. Mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy sydd gennym yn adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gyfle gwych i Gymru arwain y byd. Mewn llawer ffordd, mae rhethreg y Gweinidog wedi adlewyrchu dymuniad cydsyniol gwirioneddol yma i gyflawni llawer o'r pwyntiau yn y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy, yn ogystal â nifer o'r pwyntiau sydd yn y strategaeth amgylcheddol newydd, oherwydd mae perthynas agos rhwng y ddau.

Mae ein gwelliant 1 yn gresynu at y cynnydd yn y gwastraff y pen nad yw'n cael ei ailgylchu na'i gompostio yng Nghymru. Dywed y Gweinidog mai cwestiwn o ddata yn unig yw hyn. Ble yr ydych chi wedi bod dros y blynnyddoedd, Weinidog? Sicrhewch fod y data'n gywir. Dengys y ffigurau'n glir fod cynnydd yn y gwastraff y pen sy'n mynd i'w dirlenwi yng Nghymru. Sut y gallwch wrthod y gwelliant? Yr ydym yn eich helpu, gyda'r gwelliant hwn, i wella pethau yng Nghymru. Felly, beth am gael ychydig onestrwydd yn eich sail resymol, sydd mor

collect the data in a robust manner before? That is what you are telling us.

Our amendment 2 instructs the Welsh Assembly Government to develop a green jobs strategy in order to do more to assist and promote green businesses and initiatives. This is not the first time that many of my colleagues in the Welsh Conservatives and Plaid Cymru and I have called for this. While you have sat there talking in depth to Andrew Davies, the Minister responsible for green jobs, the Labour Party in the Scotland Executive, in partnership with the Liberal Democrats, has gone ahead and has produced a green jobs strategy. So, yet again, we are doing it; we are getting the data, and we are getting rid of landfill in Wales. Great rhetoric, but where is the delivery? It just does not wash, Minister.

Amendment 3 calls on the Assembly Government to publish an annual indicator in the sustainable development report that clearly measures economic growth against carbon dioxide emissions. We have argued the case before across the floor, and you have rejected my arguments on the grounds, I assume, that everything is already being done, and that we are already reducing carbon emissions. That is not true. What about the Scottish Executive? I do not think that Scotland has any greater opportunities than Wales to achieve sustainable development, but it has done it; it uses that indicator. The problem is that, at the moment, you can get away with all of these little things, like increasing the amount of landfill, increasing the amount not recycled from individuals, and avoiding creating green jobs so that we create economic wealth in this country on the back of sustainable development. You can avoid it, because you do not have a single indicator to measure this. That is how you are avoiding good scrutiny.

Where is the scrutiny in Wales? It obviously comes from this Chamber, and from the many organisations that look to you and to us

wan. Os ydyw mor wan, pam nad ydych yn cyfaddef ichi fethu â chasglu'r data mewn ffordd gadarn cyn hyn? Dyna yr ydych yn ei ddweud wrthym.

Mae ein gwelliant 2 yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd er mwyn gwneud mwy i gynorthwyo a hyrwyddo busnesau a mentrau gwyrdd. Nid dyna'r tro cyntaf i nifer o'm cyd-aelodau yng ngrŵp Ceidwadwyr Cymru a Phlaid Cymru a minnau alw am hyn. Tra yr ydych chi wedi bod yn eistedd yna'n siarad yn ddifrifol ag Andrew Davies, y Gweinidog sy'n gyfrifol am swyddi gwyrdd, mae'r Blaid Lafur yng Ngweithrediaeth yr Alban, mewn partneriaeth â'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi bwrw ati i gynhyrchu strategaeth swyddi gwyrdd. Felly, unwaith eto, yr ydym yn gwneud yr un peth; yr ydym yn casglu'r data, ac yr ydym yn cael gwared ar wastraff wedi'i dirlenwi yng Nghymru. Rhethreg wych, ond beth am gyflawni? Nid yw'n dal dŵr, Weinidog.

Mae gwelliant 3 yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi dangosydd blynnyddol yn yr adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy sy'n mesur twf economaidd yn glir yn erbyn gollyngiadau carbon deuocsid. Yr ydym wedi dadlau'r achos ar draws y llawr cyn hyn, ac yr ydych wedi gwrtihod fy nadleuon ar y sail, mi gymeraf, fod popeth eisoes yn cael ei wneud a'n bod eisoes yn lleihau gollyngiadau carbon. Nid yw hynny'n wir. Beth am Weithrediaeth yr Alban? Ni chredaf fod yr Alban yn cael mwy o gyfleoedd na Chymru i ddarparu datblygu cynaliadwy, ond mae wedi llwyddo; mae'n defnyddio'r dangosydd hwnnw. Y broblem ar hyn o bryd yw y gallwch wneud fel y mynnoch o ran yr holl bethau bach hyn, fel cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi, cynyddu'r hyn nad yw'n cael ei ailgylchu gan unigolion, ac osgoi creu swyddi gwyrdd er mwyn inni greu cyfoeth economaidd yn y wlad hon ar sail datblygu cynaliadwy. Gallwch osgoi hyn, oherwydd nid oes gennych yr un dangosydd i fesur hyn. Dyna sut yr ydych yn osgoi proses graffu dda.

Ble mae'r craffu yng Nghymru? Yn amlwg, mae'n dod o'r Siambra hon, ac o'r sefydliadau niferus sy'n troi atoch chi a ninnau yma am

here for leadership on issues of sustainable development. We also have Cynnal Cymru, the sustainable development forum for Wales, which is an excellent organisation, established as a critical friend to allow all of the people involved in sustainable development to come together to advise you. In your closing remarks, we should hear more about how to use it.

3.30 p.m.

Finally, we have some measures to which you did not refer in your opening remarks about the sustainable development annual report. In closing, I will draw your attention to one such measure and I hope that you will refer to it in summing up. Wales currently has an ecological footprint of 5.2, much of which is made up from waste per person, which we know that you have increased, as Minister. What action will you take during the remainder of your office—before the head boy becomes headmaster, as I assume will happen—and what efforts will you make to reduce Wales's share of the footprint from this high level of 5.2 to the world average of 1.8?

Bryngle Williams: I propose amendment 4 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

regrets the increases in carbon dioxide emissions in Wales, and calls on the Welsh Assembly Government to redraft planning guidance to increase the diversity of renewable energy supply.

The Welsh Conservatives will support all of the amendments apart from amendment 7, on which we will abstain.

Sustainable development policy is not working in Wales because the Welsh Assembly Government has its priorities wrong. While England, Scotland and Northern Ireland have all reduced their carbon dioxide emissions since 1990, Wales has seen an increase, albeit a small one. England, which is responsible for over three quarters of the UK's carbon dioxide emissions, has reduced emissions by 6.9 per cent. In comparison, Wales, which contributes just 7.4 per cent to the UK

arweinyddiaeth ar faterion datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, mae gennym Cynnal Cymru, sef fforwm datblygu cynaliadwy Cymru, sy'n sefydliad rhagorol, wedi ei sefydlu fel cyfaill beirniadol i alluogi pawb sy'n cymryd rhan mewn datblygu cynaliadwy i ddod ynghyd i'ch cynghori. Yn eich sylwadau i gloi, dylem glywed mwy am y ffordd i'w ddefnyddio.

Yn olaf, mae gennym rai mesurau nas cyfeiriasoch atynt yn eich sylwadau agoriadol yngylch adroddiad blynnyddol datblygu cynaliadwy. Wrth gloi, hoffwn dynnu eich sylw at un mesur o'r fath gan obeithio y byddwch yn cyfeirio ato wrth grynhoi. Ar hyn o bryd mae ôl troed ecolegol o 5.2 gan Gymru a gwastraff y pen yw'r rhan fwyaf ohono y gwyddom ichi ei gynyddu fel Gweinidog. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd yn ystod gweddill eich cyfnod fel Gweinidog—cyn i'r prif swyddog fynd yn bennaeth, fel y tybiaf y bydd yn digwydd—a pha ymdrechion a wnewch i leihau cyfran Cymru o'r ôl troed mawr hwn o 5.2 i 1.8 sef y cyfartaledd byd eang?

Bryngle Williams: Cynigiaf welliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu at y cynnydd o ran y carbon deuocsid a ryddheir yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailddraffio canllawiau cynllunio i gynyddu amrywiaeth y cyflenwad yn ni adnewyddadwy.

Bydd Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi pob gwelliant ar wahân i welliant 7, pan fyddwn yn atal ein pleidlais.

Nid yw'r polisi datblygu cynaliadwy yn gweithio yng Nghymru gan fod blaenoriaethau anghywir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er bod Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd wedi lleihau eu gollyngiadau carbon deuocsid ers 1990, gwelwyd cynnydd, er yn fach, yng Nghymru. Mae Lloegr, sy'n gyfrifol am dros dri chwarter gollyngiadau carbon deuocsid y DU, wedi lleihau gollyngiadau 6.9 y cant. Mewn cymhariaeth, gwelwyd cynnydd o 0.2 y cant yn y gollyngiadau o Gymru, sy'n

emissions total, has seen its emissions rise by 0.2 per cent. Sustainable development is not being given the priority that it deserves.

As the Minister stated, electricity generation is the biggest source of carbon dioxide emissions in Wales. I will use my time today to focus on this. While carbon dioxide emissions from electricity generation in England have fallen by over 20 per cent since 1990, it is of great concern to me that emissions from electricity generation in Wales have risen by 22 per cent. The Minister has argued that Wales produces energy for consumption beyond its borders and that it does not consume all that its industry manufactures, which I agree with, but that is the same in England and Scotland, where carbon emissions have been decreasing over the same period. As important as energy production is how efficiently that energy is used, and not enough is being done to reduce consumption.

It is significant that while the amount of renewable energy being produced in Wales increased by a third between 2003 and 2004, it added just 0.37 per cent to the total. Demand is spiralling upwards and growth in renewable energy is not keeping pace.

Renewable energy production could be making a substantial contribution, but, at present, the rise in consumption must be met in the main by traditional—and regrettably—carbon-emitting power stations. It is, perhaps, unfortunate that energy efficiency will never be as visible as a Severn barrage or the huge windfarms dominating our countryside. However, efficiency, together with diverse renewable energy sources, must be taken on board if Wales is to reverse its rising carbon emissions.

The Welsh Assembly Government should be doing everything that it can to help households, particularly those with low incomes, to move away from unsustainable electricity use in space heating and lighting, and to improve the take-up of simple measures such as installing cavity wall insulation and using energy-saving light bulbs. I agree with the Minister that there are many other such measures that we could use.

cyfrannu dim ond 7.4 y cant o gyfanswm gollyngiadau'r DU. Nid yw datblygu cynaliadwy yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu.

Fel y dywedodd y Gweinidog, cynhyrchu trydan yw'r ffynhonnell fwyaf o ollyngiadau carbon deuocsiad yng Nghymru. Byddaf yn defnyddio fy amser heddiw i ganolbwytio ar hyn. Er bod gollyngiadau carbon deuocsiad o gynhyrchu trydan yn Lloegr wedi gostwng dros 20 y cant er 1990, mae'n bryder mawr i mi fod gollyngiadau o gynhyrchu trydan yng Nghymru wedi codi 22 y cant. Mae'r Gweinidog wedi dadlau bod Cymru'n cynhyrchu ynni ar gyfer ei ddefnyddio y tu allan i Gymru, ac nad yw'n defnyddio'r cyfan y mae ein diwydiant yn ei gynhyrchu. Yr wyf yn cytuno â hynny. Ond, mae'r un peth yn wir yn Lloegr a'r Alban, ac mae gollyngiadau carbon wedi bod yn leihau yno dros yr un cyfnod. Mae defnyddio'n effeithlon lawn mor bwysig â chynhyrchu ynni, ac ni wneir digon i leihau faint a ddefnyddir.

Er i gyfanswm yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchrir yng Nghymru gynyddu un rhan o dair rhwng 2003 a 2004, mae'n arwyddocaol mai 0.37 y cant yn unig a ychwanegodd at y cyfanswm. Mae'r galw'n cynyddu'n aruthrol, ond nid oes twf cyfatebol mewn ynni adnewyddadwy.

Gallai cynhyrchu ynni adnewyddadwy wneud cyfraniad sylweddol. Ond ar hyn o bryd, yn anffodus, rhaid diwallu'r cynnydd yn y defnydd yn bennaf gan orsafoedd pŵer traddodiadol sy'n cynhyrchu carbon. Mae'n anffodus, efallai, na fydd defnyddio ynni'n effeithlon byth mor weladwy ag argae ar draws afon Haffren neu'r ffermydd gwynt enfawr sy'n britho'n hardaloedd gwledig. Fodd bynnag, rhaid mynd ati i fabwysiadu egwyddor effeithlonrwydd er mwyn i Gymru leihau ei gollyngiadau carbon cynyddol.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud popeth posibl i helpu teuluoedd, yn enwedig y rheini sydd ag incwm isel, i symud oddi wrth ddefnyddio trydan anghynaladwy i wresogi a goleuo, a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio dulliau syml, fel inswleiddio waliau a defnyddio bylbiau golau sy'n arbed ynni. Cytunaf â'r Gweinidog fod nifer o gamau eraill o'r fath y gallem eu defnyddio.

If renewable energy production is to start making a real contribution, the Welsh Assembly Government needs to redraft planning guidance to support a far wider group of technologies. Currently, technical advice note 8 overwhelmingly supports large, onshore windfarms as the main way of reaching Wales's renewable energy targets for 2010.

I can see the attraction of having one policy responsible for meeting the renewable energy targets. However, I do not believe that this will be effective. Guidance should promote joined-up thinking, and address efficiency at the same time as production. Local authorities should be supported in developing decentralised energy production, following the best practices of towns such as Woking, which has reduced its carbon dioxide emissions by as much as 77 per cent since 1990; that is quite a reduction.

There needs to be a realisation of the fundamental differences between public buildings and businesses signing paperwork to get green energy from the national grid, and, for example, having a wood-fuel combined heat and power generator on site, providing efficient electricity and space heating without the inefficiencies of the old-fashioned grid. The Welsh Assembly Government should embrace biomass, and at least give our farmers the same level of support, in kick-starting the industry, as is available in England—

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up now, Brynle.

Brynle Williams: Minister, I hope that you will take heed of what has been said in the Chamber this afternoon, and that you will support these amendments.

Elin Jones: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 5: Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn condemnio methiant parhaus Llywodraeth y Cynulliad i ddangos yn glir yn yr adroddiadau blynnyddol ar y cynllun datblygu

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ailddrafftio canllawiau cynllunio i gefnogi grŵp ehangach o lawer o dechnolegau, er mwyn sicrhau y gall cynhyrchu ynni adnewyddadwy ddechrau gwneud cyfraniad gwirioneddol. Ar hyn o bryd, mae nodyn cyngor technegol 8 yn cefnogi ffermydd gwynt mawr ar y tir fel y prif ddull i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Cymru ar gyfer 2010.

Gallaf ddeall apêl cael un polisi yn gyfrifol am gyflawni targedau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, ni chredaf y bydd hynny'n effeithiol. Dylai canllawiau hyrwyddo meddylfryd cydgysylltiedig, a mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ar yr un pryd â chynhyrchu. Dylid cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynhyrchu ynni i ffwrdd o'r canol, gan ddilyn arferion gorau trefi fel Woking, sydd wedi lleihau ei gollyngiadau carbon deuocsid gymaint â 77 y cant er 1990; mae hynny'n gryn ostyngiad.

Mae angen sylweddoli'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng adeiladau cyhoeddus a busnesau yn llofnodi gwaith papur i gael ynni gwyrd o'r grid cenedlaethol, a chael generadur ar y safle, er enghraift, sy'n llosgi coed ac yn cynhyrchu gwres a phŵer, gan ddarparu trydan effeithlon a gwres heb aneffeithlonrwydd y grid hen ffasiwn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arddel egwyddor bio-mâs, gan roi'r un lefel o gefnogaeth i'n ffermwyr, o leiaf, wrth roi hwb cychwynnol i'r diwydiant, fel sydd ar gael yn Lloegr—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi ddirwyn i ben, yn awr, Brynle.

Brynle Williams: Weinidog, gobeithio y byddwch yn ystyried yr hyn a ddywedwyd yn y Siambwr y prynhawn yma ac y byddwch yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

Elin Jones: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 5: add a new point at the end of the motion:

condemns the Assembly Government's continued failure to clearly demonstrate in the sustainable development scheme annual

cynaliadwy sut y mae Cymru'n llwyddo i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Cynigiaf welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r methiant i gysylltu adroddiad blynnyddol y cynllun datblygu cynaliadwy gydag adroddiadau blynnyddol y Prif Weinidog fel ag a nodir yng nghynllun gweithredu datblygu cynaliadwy 2004 i 2007.

Cynigiaf welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi bod amcanion datblygu cynaliadwy Cymru'n cael eu llesteirio am nad oes ganddi bwerau o hyd dros reoliadau adeiladu ac yn galw am ddatganoli'r pwerau hyn.

Cynigiaf welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder ynghylch y cynnydd yn y carbon deuocsid a ryddheir o ffynonellau yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu targedau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gostwng y carbon a ryddheir.

Cynigiaf welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r ffaith mai dyma adroddiad blynnyddol olaf tymor y Cynulliad ar y cynllun datblygu cynaliadwy ac yn edrych ymlaen at gael asesiadau annibynnol yn y dyfodol o record Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflawni ei hamcanion datblygu cynaliadwy.

Gwerthfawrogaf fod y Gweinidog yn cefnogi gwelliant 6, ac yn derbyn y bu camgymeriad yn y broses hon. Fodd bynnag, mae'n gwrrthod y gwelliannau sydd â sylwedd iddynt o ran y pwnc sydd o dan sylw, sy'n anffodus.

Nid yw'r ddogfen yr ydym yn ei thrafod y prynhawn yma ar gael yn y Gymraeg—mae'n debyg nad oedd yn flaenoriaeth i'w chyfieithu. Felly, fel rhywun sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cynulliad, mae'n fy ngosod o dan rywfaint o anfantais, yn ogystal ag unrhyw un arall sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

reports how Wales is achieving a more sustainable way of living.

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

notes the failure to link the sustainable development scheme annual report to the First Minister's annual reports as stated in sustainable development action plan 2004 to 2007.

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

notes that the continued lack of powers over building regulations limits Wales's sustainable development aims and calls for the devolution of these powers.

I propose amendment 8. Add a new point at the end of the motion:

expresses concern at the rise in carbon dioxide emissions from Welsh sources and calls on the Welsh Assembly Government to develop year on year targets for reductions in carbon emissions.

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

notes the fact that this is the final sustainable development scheme annual report of the Assembly term and looks forward to future independent assessments of the Assembly Government's record in achieving its sustainable development aims.

I appreciate the Minister's support for amendment 6, and that he accepts there has been a mistake in this process. However, he rejects the amendments of substance in this subject, which is unfortunate.

The document which we are discussing this afternoon is not available in Welsh—it seems it was not a priority for translation. As someone who works through the medium of Welsh in the Assembly, that puts me at somewhat of a disadvantage, as it would anyone else who works through the medium of Welsh.

Ar y cynllun gweithredu, mae'r Gweinidog wedi dweud bod nifer o'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun hwn wedi eu cyrraedd, neu yn agos i'w cyrraedd, ac yr wyf yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, os felly, mae'n amser yn awr i edrych ar gynnig pwyntiau gweithredu mwy heriol i'r Llywodraeth a fydd yn delio â'r ffaith ddamniol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef bod y cynnydd mewn rhyddhau carbon deuocsiad yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw fan arall yn y Deyrnas Gyfunol, a hynny er mai ni yw'r unig Lywodraeth yn y Deyrnas Gyfunol sydd â'r rôl statudol i hybu datblygu cynaliadwy.

Mae cynaladwyedd ac effeithlonrwydd ynni yn ganolog i'r pwnc hwn; mae'r cynllun gweithredu ei hunan yn cydnabod hynny. Mae dau set o ddefnyddwyr ynni y gall unrhyw Lywodraeth effeithio arnynt yn uniongyrchol. Y set gyntaf yw adeiladau sydd yn y sector cyhoeddus, a'r ail set yw adeiladau newydd. Noda'r cynllun gweithredu bod angen trosglwyddo cytundebau trydan adeiladau'r Llywodraeth i gyflenwyr gwyrdd, ac mae hynny wedi ei wneud yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, a yw hyn yn ddigon uchelgeisiol? Ni chredaf ei fod.

Mae eisiau edrych hefyd ar effeithlonrwydd ynni yr adeiladau sydd yn y sector cyhoeddus—ysbytai, ysgolion, canolfannau hamdden, ac yn y blaen. Mae ysbytai, yn enwedig, yn gwastraffu llawer o ynni, ac yn ddefnyddwyr mawr o ynni. Mae eisiau rhaglen ddatblygu ynni cynaliadwy—ynni'r haul ac ynni gwynt—i adeiladau cyhoeddus; gellid cael tyrbin gwynt, efallai, ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, neu baneli solar ar doeau ysgolion.

Ar gyfer cynlluniau mwy, fel y cyfeiriwyd atynt eisoes, mae eisiau edrych ar systemau gwres a phŵer cyfunedig. Mae Cyngor Sir Ceredigion, er enghraifft, newydd lansio ei gynllun ar gyfer swyddfeydd y cyngor yn Aberaeron, yn ogystal â'r cartref hen bobl lleol. Buaswn yn gobieithio y gallasai Llywodraeth flaengar ddatblygu'r model hwnnw ar gyfer adeiladau cyhoeddus drwy Gymru.

As for the action plan, the Minister has said that many of the action points in this plan have been achieved, or are close to being achieved, and I acknowledge that. However, if that is the case, it is now time to look at proposing more challenging action points for the Government to deal with the damning fact published recently, which is that the increase in carbon dioxide emissions is higher in Wales than anywhere else in the United Kingdom, despite the fact that we are the only Government in the United Kingdom that has a statutory role to promote sustainable development.

Energy sustainability and efficiency is central to this subject; the action plan itself acknowledges that. There are two sets of energy users that any Government can directly influence. The first set is buildings in the public sector, and the second is new buildings. The action plan states that we need to transfer electricity contracts for Government buildings to green providers, which has been done in most cases. However, is that ambitious enough? I do not believe it is.

We also need to look at energy efficiency in buildings in the public sector—hospitals, schools, leisure centres, and so on. Hospitals, in particular, waste a great deal of energy, and are major consumers of energy. We need a sustainable energy development programme—solar and wind energy—for public buildings; we could have a wind turbine for every school in Wales, perhaps, or solar panels on the roofs of schools.

For larger projects, as already referred to, we need to look at combined heat and power systems. Ceredigion County Council, for example, has just launched its scheme for the council's offices in Aberaeron, as well as the local home for the elderly. I would hope that a progressive Government could develop that model for public buildings throughout Wales.

3.40 p.m.

I fod yn gynaliadwy, rhaid inni fod yn hunan-gynaliadwy o ran yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yn ein sector cyhoeddus, nid o ran yr amgylchedd yn unig, ond o ran diogelwch y ffynonellau ynni hynny fel yr awn yn fwy dibynnol ar ffynonellau ynni sydd yn bell i ffwrdd, megis nwy o Rwsia ac olew o'r dwyraint canol.

O ran adeiladau newydd, mae dylanwad y Cynulliad yn gyfyngedig i adeiladau'r Llywodraeth a'r Cynulliad ac hefyd i dai cymdeithasol, ac mae pwynt gweithredu penodol ar dai cymdeithasol yn yr adroddiad hwn. Dyma'r unig adeiladau newydd y gall y Llywodraeth chwarae unrhyw rôl yn hybu ynni cynaliadwy ynddynt oherwydd nid yw'r rheoliadau adeiladu wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad. Felly, mae'r hyn a all y Cynulliad a'r Llywodraeth ei wneud o ran hybu cynaladwyedd ynni o fewn adeiladau newydd yn gyfyngedig.

Byddwn yn gobeithio byddai pob plaid yn cytuno bod dadl gref dros ddatganoli'r rheoliadau adeiladu i Gymru, ac yr wyf yn siomedig bod y Llywodraeth a'r Blaid Doriáidd yn dweud nad ydynt yn cefnogi datganoli'r rheoliadau adeiladu i Gymru. Mae'n ddigon clir—mae adeilad naill ai yng Nghymru neu yn Lloegr, ac felly mae rheoliadau adeiladu naill ai'n berthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'n fater a allai gael ei ddatganoli'n glir, ond mae diffyg ewyllys gwleidyddol yn y Siambr y prynhawn yma.

Cyfeiriaf at un mater arall. Rhaid inni gael gweld y dangosyddion cynaladwyedd cyn gynted â phosibl fel ein bod ni'n gallu craffu ar y Llywodraeth hwn yn fwy effeithiol ar ei waith.

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time is up.

Gwenda Thomas: I welcome the opportunity to comment on one of the Assembly's cross-cutting duties. Equality of opportunity and the promotion of sustainable development are both statutory duties of the Assembly and, as such, are central to the way in which the Assembly exercises its

To be sustainable, we need to be self-sufficient in relation to the energy we use in our public sector, not only in terms of the environment, but in terms of the security of those sources of energy, as we become more and more dependent upon energy sources from far afield, such as gas from Russia and oil from the middle east.

In terms of new buildings, the Assembly's influence is limited to Government and Assembly buildings and to social housing, and there is a specific action point on social housing in this report. These are the only new buildings in which the Government can play any role in promoting sustainable energy, because the building regulations have not been devolved to the Assembly. Therefore, what the Government and the Assembly can do in terms of promoting sustainable energy in new buildings is limited.

I would hope that all parties would agree that there is a strong argument for devolving the building regulations to Wales, and I am disappointed that the Government and the Tory Party have said that they do not support devolving the building regulations to Wales. It is perfectly clear—a building is either in Wales or in England, and so building regulations are either relevant in Wales or in England. It is a matter that could be clearly devolved, but there is a lack of political will in the Chamber this afternoon.

I will refer to one other matter. We must have sustainability indicators as soon as possible, so that we can scrutinise this Government on its work more effectively.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'ch amser wedi dod i ben.

Gwenda Thomas: Croesawaf y cyfle i roi sylwadau ar un o ddyletswyddau trawsbynciol y Cynulliad. Mae cyfle cyfartal a hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn ddyletswyddau statudol i'r Cynulliad, ac felly maent yn ganolog i'r modd y mae'r Cynulliad yn cyflawni ei swyddogaethau.

functions. The report shows real progress in moving towards the target set in the sustainable development action plan, and I am pleased to see that the majority of the objectives have been achieved or are in the process of being achieved. Two of the targets that still need more work to achieve the commitment are to do with education in relation to global citizenship. The Committee on Equality of Opportunity discussed how sustainable development can be promoted as part of the equality agenda when it considered the draft sustainable development action plan in May 2004. We acknowledge the difficulty of weaving as large an issue as sustainable development into the everyday work of the Assembly. We suggested that the approach taken by the mainstreaming equality review report to the development of an equality strategy could help address some of the issues raised in taking forward the sustainable development action plan. I hope that the committee's suggested approach has proved to be useful in the development of the action plan.

I am pleased to see that the committee's concerns about engaging the private sector in sustainable practices have been addressed, with the setting up of training and information services for the public, private and voluntary sectors. I am sure that this is one sector in which great strides forward can be achieved. In terms of other issues raised by the committee when we considered the draft plan, there are still some that do not appear to have been fully addressed. Although the headline indicators have been revised and extended, there is still concern as to how much they adequately measure equality. I welcome the advances made in sustainable procurement in the public sector, especially in food procurement. These will help not only to encourage local businesses and producers, but also to improve the freshness and quality of the food available in schools and hospitals. The committee recognised the importance of sustainable procurement and emphasised the need for procurement that is not only sustainable, but ethical, and I would hope that the action plan will reflect this in the future.

Finally, last week, we heard in the press that

Dengys yr adroddiad hwn gynnydd gwirioneddol o ran symud at y targed a bennwyd yn y cynllun gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy. Yr wyf yn falch gweld bod fwyafri ym amcanion wedi eu cyflawni neu yn y broses o gael eu cyflawni. Mae dau o'r targedau y mae angen gwaith pellach arnynt i gyflawni'r ymrwymiad yn ymwneud ag addysg yng Nghyd-destun dinasyddiaeth fydd-eang. Trafodwyd y ffordd y gellir hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel rhan o'r agenda cydraddoldeb yn y Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal pan ystyriwyd y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy drafat ym Mai 2004. Cydnabyddwn mor anodd yw plethu pwnc mor fawr â datblygu cynaliadwy i waith bob dydd y Cynulliad. Awgrymwn y gallai'r ymagwedd a gymerwyd gan yr adroddiad ar adolygu prif-ffrydio cydraddoldeb at ddatblygu strategaeth cydraddoldeb helpu mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy. Gobeithio bod yr ymagwedd a awgrymwyd gan y pwyllgor wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu.

Yr wyf yn falch o weld bod pryderon y pwyllgor ynglŷn ag annog y sector preifat i fabwysiadu arferion cynaliadwy wedi'u datrys drwy sefydlu gwasanaethau hyfforddiant a gwybodaeth i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Diau y gellir gwneud camau breision yn y sector hwn. O ran y materion eraill a godwyd gan y pwyllgor wrth ystyried y cynllun drafat, ymddengys nad aethpwyd i'r afael yn llawn eto â rhai ohonynt. Er bod y dangosyddion pennawd wedi'u hadolygu a'u hymestyn, mae pryder o hyd am y graddau y maent yn mesur cydraddoldeb yn ddigonol. Croesawaf y cynnydd a wnaed ym maes caffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus, yn enwedig ym maes caffael bwyd. Yn ogystal ag annog busnesau a chynhyrchwyr lleol, byddant hefyd yn gwella ffresni ac ansawdd y bwyd sydd ar gael mewn ysgolion ac ysbytai. Mae'r pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd caffael cynaliadwy, a phwysleisiwyd yr angen am fesurau caffael sy'n foesegol yn ogystal ag yn gynaliadwy, a gobeithio y bydd y cynllun gweithredu yn adlewyrchu hyn yn y dyfodol.

Yn olaf, clywsom yn y wasg yr wythnos

black and minority ethnic communities in London felt marginalised in the sustainable development debate as their cultural and religious views on the environment are often seen as different to the accepted views of some organisations involved in promoting sustainability. I hope that you will agree that sustainability and equality of opportunity are not mutually exclusive, and that we should strive to ensure that the two themes are fully integrated in Assembly policies.

diwethaf fod cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn Llundain yn teimlo wedi eu gwthio i'r cyrion yn y ddadl ar ddatblygu cynaliadwy, oherwydd ystyrir bod eu safbwytiau diwylliannol a chrefyddol ar yr amgylchedd yn aml yn wahanol i farm gyffredin rhai o'r sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo cynaliadwyedd. Gobeithio y byddwch yn cytuno nad yw cynaliadwyedd a chyfle cyfartal yn groes i'w gilydd, a dylem ymdrechu i sicrhau y caiff y ddwy thema eu hintegreiddio'n llawn ym mholisïau'r Cynulliad.

supermarkets from incredible hulks to green giants, by encouraging them to see issues of recycling, local food and fair trade as a market advantage. I want to encourage them to compete with one another by establishing which one sells the most local food, which one is recycling the most waste and which one sells the most fair-trade products, but how do I achieve this?

So far, all efforts to turn supermarkets into green giants have failed. Many have tried. The Office of Fair Trading has produced a number of reports and, in May 2006, suggested that the power of the supermarket may have an adverse effect on consumers. Subsequently, the Competition Commission is carrying out a review of the adverse effects of supermarkets and their impact on the grocery market. That is not to mention the work of many lobby groups such as Friends of the Earth and Action Aid. We have all continually called for the supermarkets to clean up their act by selling more locally sourced food and fair-trade products and limiting the amount of packaging on their products. After all these reports and criticisms, why has there been no real action?

First, we have to understand that these supermarkets are pretty big and they are incredibly successful. They hold nearly 75 per cent of the UK grocery market, they sell 27 per cent of all compact discs and DVDs, and they sell 19 per cent of all the clothing and footwear in the whole of the UK. This year, the country's largest supermarket chain, Tesco, announced record profits of £2.25 billion. It takes £1 out of every £8 spent by British consumers.

We also have to understand another basic truth: people actually like supermarkets. Whenever I go to a supermarket, it is full. It is quite a popular way of shopping. Why is that so? First, look at how they have knocked down food prices, as you will see from the graphic display. If you look at children's clothing you will see that, according to the average supermarket price, the unit is £2.68, which is less than half the market average of £5.55. This means that even those people living on limited budgets can now have

am newid archfarchnadoedd o fod yn *incredible hulks* i fod yn *green giants*, drwy eu hannog i weld materion ailgylchu, bwyd lleol a masnach deg yn fantais yn y farchnad. Yr wyf am eu hannog i gystadlu â'i gilydd drwy sefydlu p'un sy'n gwerthu fwyaf o fwyd lleol, p'un sy'n ailgylchu fwyaf o wastraff a ph'un sy'n gwerthu fwyaf o gynhyrchion masnach deg. Ond sut y gallaf fi wneud hyn?

Hyd yn hyn, mae pob ymdrech i droi archfarchnadoedd yn fendith wedi methu. Mae nifer wedi rhoi cynnig arni. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau, ac ym mis Mai 2006 awgrymodd y gallai pŵer yr archfarchnad gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr. O ganlyniad, mae'r Comisiwn Cystadleuaeth yn cynnal adolygiad o effeithiau andwyol archfarchnadoedd a'u heffaith ar y farchnad fwydydd, heb sôn am nifer o grwpiau lobio megis Cyfeillion y Ddaear ac Action Aid. Yr ydym i gyd wedi bod yn galw'n barhaus ar yr archfarchnadoedd i fod yn fwy gwyrdd drwy werthu mwy o fwydydd lleol a chynhyrchion masnach deg a chyfyngu ar y pecynnau ar eu cynhyrchion. Ar ôl yr holl adroddiadau a'r beirniadaethau hyn, pam nad oes camau gwirioneddol wedi'u cymryd?

Yn gyntaf, rhaid inni ddeall bod yr archfarchnadoedd hyn yn fawr ac yn hynod o lwyddiannus. Mae ganddynt bron 75 y cant o farchnad fwydydd y DU, maent yn gwerthu 27 y cant o'r holl gryno ddisgiau a'r DVDs, ac yn gwerthu 19 y cant o'r holl ddillad a'r esgidiau yn y DU gyfan. Eleni, cyhoeddodd Tesco, cadwyn archfarchnadoedd fwyaf y wlad, yr elw mwyaf erioed o £2.25 biliwn. Mae'n cymryd £1 o bob £8 a werir gan ddefnyddwyr Prydain.

Rhaid inni ddeall ffaith sylfaenol arall hefyd: mae pobl yn hoffi archfarchnadoedd. Pryd bynnag yr af i archfarchnad, mae'n llawn. Mae'n ffordd ddigon poblogaidd o siopa. Pam felly? Yn gyntaf, edrychwch ar y ffordd y maent wedi gostwng prisiau bwyd, fel y gwelwch o'r graff. Os edrychwch ar ddillad plant, fe welwch, yn ôl cyfartaledd y pris yn yr archfarchnad, mai cost yr uned yw £2.68, sy'n llai na hanner cyfartaledd y farchnad o £5.55. Golyga hyn y gall hyd yn oed y bobl hynny sy'n byw ar gyllidebau cyfyngedig

access to better-quality goods. However, there is a price to pay, and it is usually the producer and the environment that suffer. Secondly, the way in which we work, live and socialise means that people now have less time. Finding everything under one roof is easier and more convenient than going to lots of small shops.

Supermarkets have thrived on change; they have built bigger stores and are planning to build more to meet consumer demands. Furthermore, supermarkets are major employers in their communities, so, there is a strong case for their existence. Therefore, what is the problem?

Supermarkets have a major effect on the environment. Earlier this week, I went shopping—and you will see a list on the screen, which you can read later. I bought raspberries, which are in season in the UK, but these had travelled 964 miles from Spain. I bought cherries, which are also in season here, but these had travelled 1,000 miles from Italy. I bought lamb from New Zealand, which had travelled nearly 12,000 miles to be on our supermarket shelves, despite the fact that we, in Wales, have the best lamb.

All in all, I bought 13 items, which had generated 70,696g of carbon emissions—the same amount of energy that it takes to power your personal computer for 42 days. Friends of the Earth has suggested that the average supermarket produces as much carbon dioxide as 60 greengrocers. The average person travels 890 miles a year to shop at supermarkets—that is a lot more than travelling to the local greengrocer—not to mention the wasteful packaging that is used to make products look pretty. With landfill set to rise in Wales by 2010, we will soon be drowning in our own waste. Let us not forget that the packaging that we buy in the supermarket costs the average household £470 a year.

There is also the issue of fair trade. For many years, supermarkets have been accused of exploiting local and third-world producers. We are aware of the poor wages and working

bellach gael nwyddau o ansawdd gwell. Fodd bynnag, mae pris i'w dalu, ac fel arfer y cynhyrchydd a'r amgylchedd sy'n dioddef. Yn ail, mae'r ffordd yr ydym yn gweithio, byw a chymdeithasu yn golygu bod gan bobl lai o amser bellach. Mae cael popeth o dan yr un to yn haws ac yn fwy cyfleus na mynd i nifer o siopau bach.

Mae archfarchnadoedd wedi ffynnu ar newid; maent wedi adeiladu siopau mwy ac yn bwriadu adeiladu rhagor i fodloni gofynion defnyddwyr. Yn ogystal, mae archfarchnadoedd yn gyflogwyr mawr yn eu cymunedau, ac felly mae dadl gref dros eu bodolaeth. Felly, beth yw'r broblem?

Mae archfarchnadoedd yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd. Yn gynharach yr wythnos hon, euthum i siopa—ac fe welwch restr ar y sgrîn. Gallwch ei darllen yn ddiweddarach. Prynais safon, sydd yn eu tymor yn y DU, ond yr oedd y rhain wedi teithio 964 o filltiroedd o Sbaen. Prynais geirios, sydd hefyd yn eu tymor yma, ond yr oedd y rhain wedi teithio 1,000 o filltiroedd o'r Eidal. Prynais gig oen o Seland Newydd, a oedd wedi teithio bron 12,000 o filltiroedd i fod ar silffoedd ein harchfarchnadoedd, er bod gennym ni, yng Nghymru, y cig oen gorau.

At ei gilydd, prynais 13 o eitemau, a oedd wedi cynhyrchu 70,696g o allyriadau carbon—yr un faint o ynni ag y mae'n ei gymryd i yrru eich cyfrifiadur personol am 42 o ddiwrnodau. Mae Cyfeillion y Ddaear wedi awgrymu bod yr archfarchnad gyffredin yn cynhyrchu'r un faint o garbon deuocsiâ 60 o siopau llysiau bach. Mae'r person cyffredin yn teithio 890 o filltiroedd y flwyddyn i siopa mewn archfarchnadoedd—mae hynny'n llawer mwy na theithio i'r siop llysiau leol—heb sôn am y pecynnau gwastraffus a ddefnyddir i wneud i gynhyrchion edrych yn ddeniadol. Gan fod disgwyl i dirlenwi gynyddu yng Nghymru erbyn 2010, byddwn yn boddi yn ein gwastraff ein hunain yn fuan. A chofiw'n fod y pecynnau a brynnwn yn yr archfarchnad yn costio £470 y flwyddyn i'r cartref cyffredin.

Mae masnach deg yn fater i'w drafod hefyd. Ers llawer blwyddyn, mae archfarchnadoedd wedi eu cyhuiddo o gamfanteisio ar gynhyrchwyr lleol a'r trydydd byd. Fe

conditions of Costa Rican banana growers, but what about our local industries? What about Welsh dairy farmers? Some sell their milk, but cannot even meet the costs of production. It is time that we encouraged more fair trade in our supermarkets; let us make Wales the first fair-trade country in the world. Something needs to be done.

The social commentator, Alain de Botton, famously described supermarkets as the new cathedrals. Whether that statement is true or not is a debate for another day. One thing is clear: supermarkets need to perform to the highest standards. For many years, ‘free trade’ has been their mantra; let us make ‘fair trade’ their new mantra.

We already have the tools to build this new faith in fair trade. It means cutting down on waste. Just this week, the Women’s Institute launched a campaign encouraging supermarkets to cut down on their waste. It also means buying more locally sourced produce. Wales has some of the best fresh produce in the world, so why is it that, when I went shopping, there was a New Zealand leg of lamb on the shelf? As the *Farmers Weekly* campaign says, local food is miles better. As the World Wildlife Fund Cymru says, Wales’s footprint can be reduced if we buy a quarter of our food locally. It is immoral that food producers, wherever they are in the world, are paid unfair prices for products that they work hard to produce.

These are not just my views, but the views of the vast majority of the public. Oxfam Cymru also notes, by the way, that we now have 1,300 fair-trade products available for sale. Therefore, as part of this, we need to wipe out the international poverty created by many of our products. In Wales, we need to wipe out child poverty and, to make that happen, we must also promote fair trade.

How can this be achieved? Allow me to make a few suggestions to the supermarkets. First, take greater steps to promote locally sourced food. For example, advances in

wyddom am gyflogau ac amodau gweithio gwael tyfwyr bananas yn Costa Rica, ond beth am ein diwydiannau lleol ni? Beth am ffermwyr llaeth Cymru? Mae rhai'n gwerthu eu llaeth, ond ni allant dalu'r costau cynhyrchu hyd yn oed. Mae'n bryd inni annog mwy o fasnach deg yn ein harchfarchnadoedd. Gadewch inni sicrhau mai Cymru fydd y wlad masnach deg gyntaf yn y byd. Mae angen gwneud rhywbeth.

Disgrifiodd y sylwebydd cymdeithasol, Alain de Botton, yr archfarchnadoedd fel yr eglwysi cadeiriol newydd. Dadl ar gyfer y dyfodol yw'r cwestiwn a yw'r datganiad hwnnw'n wir ai peidio. Mae un peth yn amlwg: mae angen i archfarchnadoedd berfformio yn unol â'r safonau uchaf. Ers blynyddoedd, ‘masnach rydd’ fu eu mantra; gadewch inni sicrhau mai ‘masnach deg’ fydd eu mantra newydd.

Mae gennym eisoes y dulliau i ddatblygu'r gred newydd hon mewn masnach deg. Mae'n golygu cynhyrchu llai o wastraff. lansiodd Sefydliad y Merched ymgyrch i annog archfarchnadoedd i greu llai o wastraff. Mae hefyd yn golygu prynu cynhyrchion mwy lleol. Mae rhai o'r cynhyrchion ffres gorau yn y byd yng Nghymru, felly, pam yr oedd darn o gig oen o Seland Newydd ar y silff pan euthum i siopa? Fel y dywed ymgyrch y *Farmers Weekly*, mae bwyd lleol lawer yn well. Fel y dywed Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd Cymru, gellir lleihau ôl-troed Cymru os prynwn chwarter ein bwyd yn lleol. Mae'n anfoesol fod pobl yn talu prisau annheg i gynhyrchwyr bwyd, ble bynnag y maent yn y byd, am gynhyrchion y maent yn gweithio'n galed i'w cynhyrchu.

Nid fy marn i yn unig yw hyn, ond barn y mwyafrif helaeth o'r cyhoedd. Dywed Oxfam Cymru hefyd, gyda llaw, fod 1,300 o gynhyrchion masnach deg ar werth bellach. Felly, fel rhan o hyn, rhaid inni ddileu'r tlodi rhwngwladol a grëir gan lawer o'n cynhyrchion. Yng Nghymru, mae angen inni ddileu tlodi plant, ac i wneud rhaid inni hefyd hyrwyddo masnach deg.

Sut y gellir cyflawni hyn? Gadewch imi wneud ambell awgrym i'r archfarchnadoedd. Yn gyntaf, dylech gymryd mwy o gamau i hyrwyddo bwyd lleol. Er enghraifft, mae

technology have made it possible to indicate on the till receipt the percentage of items bought that were locally sourced. Just imagine. When you go to the supermarket check-out, you see on your receipt how much you have spent and helped the local economy. It is possible.

Secondly, let us promote recycling. It is still the exception that supermarkets provide bring sites on their premises. Why can this not be the norm across Wales? Recently, the chair of Wal-Mart, which owns ASDA, said that the company has made a commitment to the idea of zero waste. We need to provide the pressure to make that happen.

Thirdly, let us establish and promote new lines of produce that pay a fair price. One of those new lines should be Welsh milk. We should have a new brand called 'Just Milk', which pays a fair price to Welsh dairy farmers. Establishing something like 'Just Milk' would be the first step in helping our Welsh dairy industry to thrive again.

My challenge today is not just for the supermarkets; it is also a challenge for us, for the Government, and all political parties, as well as environmental lobbies who are interested in promoting local food, recycling and fair trade.

4.20 p.m.

The supermarkets are driven by the market and, as the consumer demands more, so the supermarkets meet those demands. I want to work with the supermarkets to achieve this goal. Earlier today, I wrote to each of the major supermarkets inviting them to a green supermarket summit in Wales. I invite the Minister to join me in this. Together, we can explore the possibility of changing supermarkets from incredible hulks into green giants. I want the supermarkets to publish figures that show who sells the most local food, who recycles the most waste, and who sells the most fair-trade products. I invite the Minister and all parties to join me in that summit. I have a three-point agenda, which will be sent out to all Members. I hope

datblygiadau ym maes technoleg wedi golygu ei bod yn bosibl i'r dderbynneb nodi canran yr eitemau a brynwyd ac a oedd yn rhai lleol. Dychmygwch hyn. Pan ewch i dalu am eich eitemau yn yr archfarchnad, fe welwch ar eich derbynneb faint yr ydych wedi'i wario ac wedi helpu'r economi leol. Mae'n bosibl.

Yn ail, gadewch inni hyrwyddo ailgylchu. Mae archfarchnadoedd sy'n darparu safleoedd dod â gwastraff ar eu safle yn dal yn eithriadau. Pam na all hyn fod yn arfer cyffredin ledled Cymru? Yn ddiweddar, dywedodd cadeirydd Wal-Mart, sy'n berchen ar ASDA, fod y cwmni wedi ymrwymo i'r syniad o ddim gwastraff. Mae angen inni roi'r pwysau arnynt i sicrhau hynny.

Yn drydydd, gadewch inni sefydlu a hyrwyddo llinellau cynyrrch newydd sy'n talu pris teg. Dylai llaeth Cymru fod ymysg y llinellau newydd hynny. Dylem gael brand newydd o'r enw 'Llaeth Teg', sy'n talu pris teg i ffermwyr llaeth Cymru. Sefydlu rhywbeth fel 'Llaeth Teg' fyddai'r cam cyntaf i helpu ein diwydiant llaeth yng Nghymru i ffynnu eto.

Nid yw fy her heddiw wedi ei chyfyngu i'r archfarchnadoedd; mae hefyd yn her i ni, i'r Llywodraeth, ac i'r holl bleidiau gwleidyddol, yn ogystal ag i lobïau amgylcheddol sydd â diddordeb mewn hyrwyddo bwyd lleol, ailgylchu a masnach deg.

Caiff yr archfarchnadoedd eu hysgogi gan y farchnad, ac wrth i'r defnyddiwr fynnu rhagor, mae'r archfarchnadoedd yn bodloni'r gofynion hynny. Yr wyf am weithio gyda'r archfarchnadoedd i gyrraedd y nod hwn. Yn gynharach heddiw, ysgrifennais at bob un o'r archfarchnadoedd mawr yn eu gwahodd i uwchgynhadledd archfarchnad werdd yng Nghymru. Gwahoddaf y Gweinidog i ymuno â mi yn yr uwchgynhadledd. Gyda'n gilydd, gallwn archwilio'r posibilrwydd o newid archfarchnadoedd o fod yn *incredible hulks* i fod yn *green giants*. Yr wyf am i'r archfarchnadoedd gyhoeddi ffigurau sy'n dangos pwy sy'n gwerthu fwyaf o fwyd lleol, pwy sy'n ailgylchu fwyaf o wastraff a phwy sy'n gwerthu fwyaf o gynhyrchion masnach

that, together, we can scale the heights to make Wales a greener and more prosperous place, where the incredible hulks become the green giants of the modern age.

deg. Gwahoddaf y Gweinidog a'r pleidiau i gyd i ymuno â mi yn yr uwchgynhadledd honno. Mae gennyf agenda ag iddi dri phwynt, a chaiff ei hanfon at bob Aelod. Gyda'n gilydd, gobeithio y gallwn fod yn arloesol i sicrhau y bydd Cymru yn lle mwy gwyrrd a ffyniannus, lle y bydd yr *incredible hulks* yn troi'n *green giants* yr oes fodern.

The Deputy Presiding Officer: Three Members have caught my eye, so you have less than a minute each.

Bryngle Williams: I thank Mick for the opportunity to contribute to his debate. I would ask how serious we are about this. We have discussed sustainable development, the ecological footprint and so on this afternoon. I take on board what Mick said. It is ridiculous that we are chopping down the lungs of the world in South America to produce grain and meat that is transported halfway around the world simply to fill a niche for cheap food without any thought of the consequences to the world. We have the ideal opportunity here in Wales and in the UK to support local produce and agriculture, and we need to do that. Why do we need carrots of a certain length and so on—do they taste any differently? Thousands of tonnes of British produce, which could be delivered on our shelves, will be dumped and stock-fed. The supermarkets have a responsibility. They cannot just take; they must give something back to this country.

Alun Ffred Jones: Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon.

Supermarkets are in danger of being seen as undermining the confidence of the farming community. I wonder whether this is how they want to be seen, and what they want to be accused of. However, there is an opportunity for the supermarkets to bring stability to the abattoir chain, for example, by going into partnership with private companies or co-operatives to bring confidence back to the market, and to use their financial clout to ensure that payments are honoured and that the system is sustainable both socially and environmentally.

Lorraine Barrett: As Mick said, the

Y Dirprwy Lywydd: Mae tri Aelod wedi dal fy llygad, felly mae gennych lai na munud yr un.

Bryngle Williams: Diolch i Mick am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Gofynnaf pa mor ddifrifol ydym ynglŷn â hyn. Yr ydym wedi trafod datblygu cynaliadwy, yr ôl-troed ecolegol ac ati y prynhawn yma. Yr wyf yn derbyn yr hyn a ddywedodd Mick. Mae'n hurt ein bod yn dinistrio coedwigoedd yn Ne America i gynhyrchu grawn a chig a gludir hanner ffordd o amgylch y byd, a'r cyfan er mwyn darparu bwyd rhad heb feddwl o gwbl am y canlyniadau i'r byd. Mae gennym y cyfle delfrydol yma yng Nghymru ac yn y DU i gefnogi cynnyrch ac amaethyddiaeth leol, ac mae angen inni wneud hynny. Pam mae arnom angen moron o hyd penodol, ac ati—a ydynt yn blasu'n wahanol? Caiff miliynau o dunelli o gynnyrch Prydeinig, y gellid ei osod ar ein silffoedd ei dympio a'i fwydo i anifeiliaid. Mae gan yr archfarchnadoedd gyfrifoldeb. Ni allant gymryd yn unig; rhaid iddynt roi rhywbeth yn ôl i'r wlad hon.

Alun Ffred Jones: Thank you for the opportunity to contribute to this debate.

Mae perygl yr ystyriod bod archfarchnadoedd yn tanseilio hyder y gymuned ffermio. Tybed ai dyma sut maent am i bobl eu hystyried, ac ai dyma'r hyn y maent am gael eu cyhuddo ohono. Fodd bynnag, mae cyfle i'r archfarchnadoedd ddod â sefydlogrwydd i'r gadwyn lladd-dai, er engraifft, drwy lunio partneriaeth gyda chwmniau preifat neu gwmniau cydweithredol i ddod â hyder yn ôl i'r farchnad, a defnyddio'u grym ariannol i sicrhau bod taliadau'n cael eu hanrhodeddu a bod y system yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

Lorraine Barrett: Fel y dywedodd Mick,

National Federation of Women's Institutes launched its packaging day of action yesterday, calling on supermarkets to improve their environmental policies on packaging and food waste. Across the nation, unnecessary and unwanted packaging was returned to the supermarkets from which they were purchased. That is great, because we, as taxpayers, are paying our councils to collect the supermarkets' packaging. We can make a stand—and Elin suggested in committee once that we could, for example, buy a microwave, take it out of its packaging in the shop and tell the supermarket to get rid of it. Power to the elbow of the WI. I congratulate it on taking this initiative, and I hope that we give it our full support.

The Deputy Presiding Officer: I call the Minister to respond.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I am not sure whether 'respond' is the right word on this occasion, Dirprwy Lywydd, because I agreed with much of what Mick said. It was a superb presentation and one that, through the use of MS PowerPoint, conveyed much more than simple words could do.

I have a confession to make, Dirprwy Lywydd, in that I was once a Tesco employee. From 1984 to 1985, when I was at school, I worked in Tesco Bridgend as a provisions vehicle co-ordination assistant—or 'trolley pusher' as it is known to most people. [Laughter.] I worked on a Saturday between 8 a.m. and 2 p.m.. It was a reasonably well paid job, and it was a closed shop in those days, as a member of the Union of Shop, Distributive and Allied Workers. One thing that struck me was the phrase that was often used at that time: 'Pile it high, sell it cheap'. The philosophy of Tesco particularly, until quite recently, was that people should be able to buy the same food in every Tesco store in the UK. There was no emphasis on regional food; in fact, it was actually discouraged for a long time. That has changed. Sainsbury's has a better record and Waitrose, a better record still. However, all of this came about because of consumer

lansiodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched ei ddiwrnod gweithredu ar becynnau ddoe, gan alw ar archfarchnadoedd i wella'u polisiau amgylcheddol ar becynnu a gwastraff bwyd. Ar draws y wlad, dychwelwyd pecynnu diangen i'r archfarchnadoedd lle caawsant eu prynu. Mae hynny'n beth da, oherwydd yr ydym ni, fel trethdalwyr, yn talu i'n cynghorau am gasglu pecynnu'r archfarchnadoedd. Gallwn wneud safiad—ac awgrymodd Elin yn y pwylgor unwaith y gallem ni, er enghraifft, brynu ffwrn feicronon, ei thynnu allan o'i phecyn yn y siop a gofyn i'r archfarchnad waredu'r pecyn hwnnw. Da iawn, Sefydliad y Merched. Hoffwn ei longyfarch am ymgymryd â'r fenter hon, a gobeithio y byddwn yn ei chefnogi'n llwyr.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Nid wyf yn siŵr ai 'ymateb' yw'r gair cywir ar yr achlysur hwn, Ddirprwy Lywydd, oherwydd yr oeddwn yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd Mick. Yr oedd yn gyflwyniad gwych a oedd yn cyfleu, drwy ddefnyddio MS PowerPoint, lawer mwy nag y gallai geiriau syml ei wneud.

Yr wyf yn cyfaddef, Ddirprwy Lywydd, fy mod ar un adeg yn gweithio i Tesco. O 1984 i 1985, pan oeddwn yn yr ysgol, gweithiais yn Tesco ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel cynorthwy-ydd cydgysylltu cerbydau nwyddau—neu 'gwthiwr troliau' fel y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei alw. [Chwerthin.] Gweithiwn ar ddydd Sadwrn rhwng 8 a.m. a 2 p.m.. Yr oedd y swydd yn talu'n rhesymol, ac yr oedd yn siop gaeedig bryd hynny, fel aelod o'r Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol. Un peth a'm tarodd oedd y frawddeg a ddefnyddid yn aml bryd hynny: 'Llenwch y silffoedd, gwerthwch yn rhad'. Athroniaeth Tesco yn arbennig, tan yn eithaf diweddar, oedd y dylai pobl allu prynu'r un bwyd ym mhob siop Tesco yn y DU. Nid oedd pwyslais o gwbl ar fwyd rhanbarthol; mewn gwirionedd, rhwystrwyd hynny am gyfnod hir. Mae hynny wedi newid. Mae gan Sainsbury's record well, ac mae gan Waitrose record well

demand, and sometimes we forget that.

Mick was realistic enough to understand that supermarkets are popular. They offer people choice, flexibility and low prices. I have often wondered—and this has worried me at times—whether, in some parts of urban Britain, farming could disappear and no-one would notice, as long as the supermarket shelves were piled high with food. That has troubled me, such is people's love of supermarkets.

The question for us all is whether supermarkets can co-exist with a thriving producer sector in the UK. I am far from convinced that that is the case, at the moment. I have spoken to companies and to producers that are clearly very weak when it comes to negotiating with large supermarkets. Historically, that is a structural failure of British farming, to be frank. In other countries of Europe, large organisations negotiate directly with the supermarkets; in Britain, instead of farmers moving up the food industry chain and taking control of the abattoirs, supermarkets have tended to come down, forcing farmers back to the farm gate. That remains a fundamental problem in farming generally in Britain, though not exclusively—there are some good examples of different practices, particularly in Wales.

I liked the comparison that Mick made between the Incredible Hulk and the Jolly Green Giant, though I note that I am looking at the moment at the photograph of the Jolly Green Giant presiding over a bio-diversity-free environment. It is not one that we would seek to encourage in Wales, perhaps. It is very green, but none of it is natural; it has all been seeded with grass and there is the odd tree here and there, but not much by the way of bio-diversity. Perhaps it is not the best example in the modern world of what we are trying to do.

However, Mick makes a serious point, asking what supermarkets can do to make themselves more friendly to suppliers. The

fyth. Fodd bynnag, digwyddodd hyn oll oherwydd galw gan ddefnyddwyr, a byddwn yn anghofio hynny weithiau.

Yr oedd Mick yn ddigon realistig i ddeall bod archfarchnadoedd yn boblogaidd. Maent yn cynnig dewis, hyblygrwydd a phrisiau isel i bobl. Yr wyf wedi meddwl yn aml—ac mae hyn wedi peri gofid imi ar brydiau—a allai ffermio ddiflannu mewn rhai rhannau o Brydain drefol heb i neb sylwi, cyhyd â bod silffoedd yr archfarchnad yn llawn bwyd. Mae hynny wedi peri gofid imi, cymaint yw hoffter pobl o archfarchnadoedd.

Y cwestiwn inni bob un yw a all archfarchnadoedd fodoli ar y cyd â sector cynhyrchu ffyniannus yn y DU. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o bell ffordd fod hynny'n wir, ar hyn o bryd. Yr wyf wedi siarad â chwmniau ac â chynhyrchwyr sy'n amlwg mewn sefyllfa wan iawn wrth negodi ag archfarchnadoedd mawr. Yn hanesyddol, mae hynny'n fethiant strwythurol ym maes ffermio ym Mhrydain, a bod yn onest. Mewn gwledydd eraill yn Ewrop, mae sefydliadau mawr yn negodi'n uniongyrchol â'r archfarchnadoedd; ym Mhrydain, yn lle bod ffermwyr yn symud i fyny'r gadwyn diwydiant bwyd ac yn cymryd rheolaeth dros y lladd-dai, mae archfarchnadoedd wedi tueddu i ddod i lawr, gan wthio ffermwyr yn ôl i'r fferm. Erys hynny yn broblem sylfaenol ym maes ffermio'n gyffredinol ym Mhrydain, er nad ym mhobman—mae rhai enghreifftiau da o arferion gwahanol, yn arbennig yng Nghymru.

Yr oeddwn yn hoff o'r gymhariaeth a wnaeth Mick rhwng yr Incredible Hulk a'r Jolly Green Giant, er fy mod yn sylwi ar hyn o bryd fy mod yn edrych ar y llun o'r Jolly Green Giant yn llywyddu dros amgylchedd heb fioamrywiaeth. Nid yw'n un y byddem yn ceisio'i annog yng Nghymru, efallai. Mae'n wyrdd iawn, ond nid yw'n naturiol o gwbl; mae'r cyfan yn borfa, ac mae ambell goeden ar wasgar, ond nid oes llawer o fioamrywiaeth. Efallai nad hon yw'r enghraifft orau yn yr oes fodern o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni.

Fodd bynnag, mae Mick yn gwneud pwynt difrifol, ac yn gofyn beth y gall archfarchnadoedd ei wneud i sicrhau eu bod

fundamental answer to that question lies in consumer behaviour. Supermarkets are the creation of consumers—they do not exist of themselves. If they cannot sell anything, they will collapse. The fact is that consumers like choice. They like going to the supermarket and being offered broad beans and new potatoes all year round, whereas 30 years ago, people accepted that they ate with the season. Some education has to be done, and has started already, to encourage people to eat what is good at the right time of year. It is difficult to prise people away from brightly coloured packages and all that is in them, and the way that they are advertised, and to prise people away from buying fruit and vegetables that are out of season, which leads to an increase in food miles.

Eleanor Burnham: Do you not think that you, as a Government, here and in Westminster, have a strong role to play in controlling the monopolistic tendencies that have been allowed to develop in supermarkets, so much so that they have been allowed to overcome every other form of control? Farmers obviously cannot compete. Do you not think that you have some role to play?

Carwyn Jones: The word that you are looking for is ‘oligopoly’, not ‘monopoly’. In terms of the role that can be played, the findings of the Office of Fair Trading investigation will be interesting. However, to suggest that this is somehow the fault of a political party is preposterous, as supermarkets have been going for many years. I noted what Mick said about free trade. I have just finished reading a history of the Liberal Party—I like to know the background of those who stand against me—and I have learned that the one thing that led to the decline of the Liberal Party more than anything was its dogmatic adherence to free trade. That changed in the aftermath of the second world war, and I was glad to hear Mick emphasise that fair trade is the wave of the future.

I think that it was the co-operative

yn fwy ystyriol o gyflenwyr. Mae'r ateb sylfaenol i'r cwestiwn hwnnw'n ymwneud ag ymddygiad defnyddwyr. Defnyddwyr a greodd archfarchnadoedd—nid ydynt yn bodoli ohonynt eu hunain. Os na allant werthu dim, byddant yn mynd i'r wal. Y ffaith amdani yw bod defnyddwyr yn hoffi dewis. Maent yn hoffi mynd i'r archfarchnad ac yn hoff o'r ffaith bod ffa llydan a thatws newydd yn cael eu cynnig drwy gydol y flwyddyn, lle yr oedd pobl 30 mlynedd yn ôl yn derbyn eu bod yn bwyta yn ôl y tymor. Mae angen ychydig addysgu i annog pobl i fwyta'r hyn sy'n dda ar yr adeg gywir o'r flwyddyn, ac mae hynny wedi dechrau eisoes. Mae'n anodd rhwystro pobl rhag cael eu denu gan becynnau lliwgar a'r hyn sydd ynddynt, a'r modd y cânt eu hysbysebu, a rhwystro pobl rhag cael eu denu i brynu ffrwythau a llysiau nad ydynt yn eu tymor, sy'n arwain at gynnydd mewn milltiroedd bwyd.

Eleanor Burnham: Oni chredwch fod gennych chi, fel Llywodraeth, yma ac yn San Steffan, ran gref i'w chwarae wrth reoli'r tueddiadau monopolyddol sydd wedi cael cyfle i ddatblygu mewn archfarchnadoedd, i'r graddau lle maent wedi gallu trechu pob math arall o reolaeth? Mae'n amlwg na all ffermwyr gystadlu. Oni chredwch fod gennych chi ryw ran?

Carwyn Jones: Y gair yr ydych yn chwilio amdano yw ‘oligopoli’, nid ‘monopoli’. O ran yr hyn y gellir ei wneud, bydd darganfyddiadau ymchwiliad y Swyddfa Masnachu Teg yn ddiddorol. Fodd bynnag, mae awgrymu bod hyn, rywsut, yn fai ar blaid wleidyddol yn afresymol, gan fod archfarchnadoedd yn bodoli ers blynnyddoedd mawr. Nodais yr hyn a ddywedodd Mick ynghylch masnach rydd. Yr wyf newydd orffen darllen hanes y Blaid Ryddfrydol—yr wyf yn hoffi gwybod bth yw cefndir fy ngwrthwynebwyr—ac yr wyf wedi dysgu mai ei hymlyniad pendant wrth fasnach deg oedd un o'r pethau a arweiniodd at ddirywiad y Blaid Ryddfrydol yn anad dim. Newidiodd hynny ar ôl diwedd yr ail ryfel byd, ac yr oeddwn yn falch clywed Mick yn pwysleisio mai masnach deg yw'r dyfodol.

Credaf mai'r mudiad cydweithredol, yn

movement, particularly the Co-operative stores, that began the move towards fair-trade products, along with other organisations that sold particular products. Increasingly, we see fair-trade products appearing in many supermarkets, including the mainstream supermarkets. Why? It is because consumers are demanding it. If, as consumers, we decided that we wanted to buy fair-trade products that did not cost the earth in terms of food miles—although there is inevitably a conflict between food miles and fair trade, as fair-trade products come from far away—and if we continued to promote fair-trade products and to encourage people to buy them and continued to make people aware of what fair trade means, we would change things and ensure that supermarkets take notice of fair trade as a concept. Ultimately, it is in the consumers' hands. If that is what consumers demand, that is what the supermarkets will provide.

4.30 p.m.

It has been apparent to me for some time, as I said earlier, that it is exceptionally difficult, if not impossible, for a small individual supplier to get an equitable price when selling to a large organisation such as a supermarket. There are two choices, in my view: you either get rid of the supermarket, which you cannot do because people find them to be convenient, and they are popular, or you try to reorganise the supply chain to ensure that people have a fairer crack of the whip when it comes to negotiating contracts.

Bryngle Williams: I know that it is rather unconventional for me to come in like this. I agree with you, Minister, and we have had this discussion before, about fair trade and so on, but we are fast approaching a situation in this country where the milk industry is in the hands of about half a dozen companies. We are talking about fair trade, and I am all for fair trade, but we are selling milk at way below the cost of production—the figures are there to substantiate that—simply because the supermarkets want to take control of the milk industry, which is contracting at an alarming rate. I think that, for certain products, we should ensure fair trade right across the

arbennig y siopau Cydweithredol, a ddechreuodd y newid i gynhyrchion masnach deg, ynghyd â sefydliadau eraill a oedd yn gwerthu cynhyrchion penodol. Gwelwn fwy a mwy o gynhyrchion masnach deg yn ymddangos mewn nifer o archfarchnadoedd, gan gynnwys yr archfarchnadoedd prif ffrwd. Pam? Y rheswm yw bod defnyddwyr yn gofyn am hynny. Pe baem ni, fel defnyddwyr, yn penderfynu ein bod am brynu cynhyrchion masnach deg nad oeddent yn costio ffortiwn o ran milltiroedd bwyd—er bod gwrtiharo rhwng milltiroedd bwyd a masnach deg, yn anochel, gan fod cynhyrchion masnach deg yn dod o bell—a phe baem yn dal i hyrwyddo cynhyrchion masnach deg ac annog pobl i'w prynu a pharhau i wneud pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae masnach deg yn ei olygu, byddem yn newid pethau ac yn sicrhau bod archfarchnadoedd yn rhoi sylw i fasnach deg fel cysyniad. Yn y pen draw, y defnyddwyr sydd â'r grym. Os dyna mae defnyddwyr yn ei fynnu, dyna y bydd archfarchnadoedd yn ei ddarparu.

Mae'n amlwg i mi ers cryn amser, fel y dywedais yn gynharach, ei bod yn eithriadol anodd, os nad yn amhosibl, i un cyflenwr bach gael pris teg wrth werthu i sefydliad mawr fel archfarchnad. Mae dau ddewis, yn fy marn i: naill ai cael gwared â'r archfarchnad, sy'n amhosibl am fod pobl yn eu hystyried yn gyfleus, ac maent yn boblogaidd, neu geisio ad-drefnu'r gadwyn gyflenwi i sicrhau bod pobl yn cael mwy o chwarae teg pan fyddant yn negodi contractau.

Bryngle Williams: Gwn ei bod braidd yn anarferol imi ymyrryd fel hyn. Cytunaf â chi, Weinidog, ac yr ydym wedi cael y drafodaeth hon yn y gorffennol, am fasnach deg ac ati. Ond yr ydym ar fin cyrraedd sefyllfa yn y wlad hon lle y mae'r diwydiant llaeth yn nwyo tua hanner dwsin o gwmniau. Yr ydym yn traftod masnach deg, ac yr wyf yn gefnogol iawn i fasnach deg, ond yr ydym yn gwerthu llaeth ymhell islaw cost cynhyrchu—mae'r ffigurau ar gael i ategu hynny—yn syml am fod yr archfarchnadoedd am reoli'r diwydiant llaeth, sy'n cywasgu'n frawychus o gyflym. Credaf, o ran cynyrrch penodol, y dylem sicrhau masnach deg ar

world, and not just for our friends in developing nations. We should not be protectionist, but we have to look at achieving a fair price for the producers in this country as well.

Carwyn Jones: Some farmers are selling at below the cost of production, but others are not. I was at a conference on Friday at which a Flintshire dairy farmer said to me that he was making money as a dairy farmer—some are and some are not—however, no-one would pretend that it is an enormous amount of money, given the historic price of milk in Wales and the rest of the UK. We often go back to the debate on Milk Marque when it comes to milk, and I think that, in time, we have come to regret the decision on Milk Marque—not that it was our decision. It is important to realise that co-operatives have a strong role to play when it comes to marketing particular products and we have good examples of that in Wales already: the Dolaucothi estate has done well in marketing its product to one supermarket and it has been successful. We need more and more farmers to start doing that. The expectation that an individual, in some way, in the future, will be able to sell to a large organisation and get an equitable price is just not going to be fulfilled. This means that, increasingly, we will see fewer farms, regardless of anything that government does. We have had that debate many times in the Chamber and it is a debate that we could have in the future as well.

I do not think that there is much else that I can add to the points that Mick has made. This boils down, at the end of the day, to what consumers demand. If consumers can be galvanised to go down a certain path in sufficient numbers, supermarkets will respond to that. We have seen it happen with fair trade and the introduction of more and more regional food, including Welsh food in supermarkets in Wales and Welsh lamb across all Waitrose supermarkets. If you create the demand for something, the supermarkets will supply it. It is in our hands, as consumers, and it is for us, as politicians, to make sure that that message gets across to as many people as possible.

draws y byd, nid dim ond ar gyfer ein cyfeillion mewn gwledydd sy'n datblygu. Ni ddylem fod yn ddifyndollwyr, ond rhaid inni edrych ar sicrhau masnach deg i gynhyrchwyr y wlad hon hefyd.

Carwyn Jones: Mae rhai ffermwyr yn gwerthu am lai na chost cynhyrchu, ond nid pawb. Yr oeddwn mewn cynhadledd ddydd Gwener lle dywedodd ffermwyr llaeth o sir y Fflint wrthyf ei fod yn ennill arian fel ffermwyr llaeth—mae hyn yn wir am rai, ond nid eraill. Fodd bynnag, ni fyddai neb yn dadlau ei fod yn arian mawr, o gofio pris hanesyddol llaeth yng Nghymru a gweddill y DU. Byddwn yn aml yn dychwelyd at y ddadl am Milk Marque wrth drafod llaeth, a chredaf ein bod, erbyn hyn, wedi dechrau difaru'r penderfyniad ar Milk Marque—er nad ein penderfyniad ni ydoedd. Mae'n bwysig cydnabod bod gan gwmniau cydweithredol ran gref i'w chwarae o ran marchnata cynnyrch penodol, ac mae gennym enghreifftiau da o hynny yng Nghymru eisoes: mae ystâd Dolaucothi wedi llwyddo i farchnata ei chynnyrch i un archfarchnad. Mae angen i fwya mwy o ffermwyr ddechrau gwneud hynny. Nid yw disgwyl y bydd unigolyn, mewn rhyw fodd, yn y dyfodol yn gallu gwerthu i sefydliad mawr a chael pris teg yn mynd i ddigwydd. Golyga hyn y byddwn, yn gynyddol, yn gweld llai o ffermydd, waeth beth a wnaiff y llywodraeth. Yr ydym wedi cael y drafodaeth honno lawer gwaith yn y Siambra, ac mae'n drafodaeth y gallem ei chael yn y dyfodol hefyd.

Ni chredaf fod dim byd arall y gallaf ei ychwanegu at y pwyntiau a wnaeth Mick. Mae a wnelo hyn, yn y pen draw, â'r galw gan ddefnyddwyr. Os gellir ysgogi nifer digonol o ddefnyddwyr i ddilyn llwybr arbennig, bydd archfarchnadoedd yn ymateb i hynny. Gwelsom hyn yn digwydd gyda masnach deg a'r broses o ddarparu mwy a mwy o fwyd rhanbarthol, gan gynnwys bwyd o Gymru mewn archfarchnadoedd yng Nghymru a chig oen Cymreig ym mhob un o archfarchnadoedd Waitrose. Os byddwch yn creu'r galw am rywbeth, bydd yr archfarchnadoedd yn ei ddarparu. Mae yn ein dwylo ni, fel defnyddwyr, a'n cyfrifoldeb ni, fel gwleidyddion, yw sicrhau y caiff y neges honno ei chyfleu i gynifer â phosibl o bobl.

Dadl Fer
Short Debate

Trefnu ar gyfer Trychineb—Ad-drefnu Ysbytai yn y Canolborth a'r Gorllewin
Designed for Disaster—Hospital Reconfiguration in Mid and West Wales

Helen Mary Jones: I have agreed to give one minute each to Rhodri Glyn Thomas, Elin Jones, Dai Lloyd, Lisa Francis and Mick Bates. I realise that that only leaves 10 minutes for me and I apologise to those who requested time that I was not able to give, but I hope that those Members will have an opportunity to speak when the Minister responds to the debate. That level of interest from Assembly Members shows how important this issue is for those of us who live in these communities.

I have titled my speech ‘Designed for Disaster’, because that is how it feels when you are on the receiving end of these proposed changes. It has been a profoundly unhappy process for many of the communities affected, and it is a profound concern for all of us who live in those communities and need to receive those services. We have to be clear that no-one is saying that there should never be any change: expectations of the health service have changed, the conditions in which the health service operates have changed and the service needs to respond. However, are these the right changes, at the right time? I think not.

I want to challenge some of the bases on which the proposals are predicated, and I begin with a much-quoted figure from the Royal College of Surgeons report, ‘Delivering High-quality Surgical Services for the Future’. ‘Designed to Deliver’ repeatedly refers to the need for a critical mass of a population of 300,000 as a minimum for the provision of safe services. However, if one reads the document carefully, the Royal College of Surgeons clearly asserts that there are some circumstances in which hospitals providing services in rural areas for populations of around 150,000 will need to be maintained as autonomous hospitals because of travel distance issues, and the Royal College of Surgeons asks government at all levels to pay particular attention to that. This matter that

Helen Mary Jones: Yr wyf wedi cytuno i roi munud yr un i Rhodri Glyn Thomas, Elin Jones, Dai Lloyd, Lisa Francis a Mick Bates. Sylweddolaf mai dim ond 10 munud sydd ar ôl i mi, ac ymddiheuraf i'r rheini sydd wedi gofyn am amser, na allwn ei roi. Ond gobeithio y caiff yr Aelodau hynny gyfle i siarad pan fydd y Gweinidog yn ymateb i'r ddadl. Mae lefel fel hynny o ddiddordeb gan Aelodau'r Cynulliad yn dangos mor bwysig yw'r mater hwn i'r rheini ohonom sy'n byw yn y cymunedau hyn.

Y pennawd a roddais i'm haraith yw ‘Trefnu ar gyfer Trychineb’, gan mai dyna'r teimlad a gewch pan gaiff y newidiadau arfaethedig hyn eu hargymhell ar eich cyfer. Bu'n broses drist iawn i nifer o'r cymunedau yr effeithir arnynt, ac mae'n destun pryder mawr i bob un ohonom sy'n byw yn y cymunedau hynny ac sydd ag angen y gwasanaethau hynny. Rhaid inni fod yn glir nad oes neb yn dweud na ddylid byth cael newid byth: mae disgwyliadau'r gwasanaeth iechyd wedi newid, mae amodau gwaith y gwasanaeth iechyd wedi newid, ac mae angen i'r gwasanaeth ymateb. Fodd bynnag, ai dyma'r newidiadau cywir, ar yr adeg gywir? Nid wyf yn creddu hynny.

Yr wyf am herio rhai o'r seiliau y gosodwyd y cynigion arnynt, a dechreuaf gyda ffigur a ddyfynnir yn aml o adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, sef ‘Delivering High-quality surgical Services for the Future’. Cyfeiria ‘Cynllunio i Gyflenwi’ droeon at yr angen am fâs critigol o boblogaeth o 300,000 fel yr isafswm ar gyfer darparu gwasanaethau diogel. Fodd bynnag, wrth ddarllen y ddogfen yn ofalus, mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn haeru'n glir bod rhai amgylchiadau lle mae angen cynnal ysbytai sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ar gyfer poblogaethau o tua 150,000 fel ysbytai ymreolaethol oherwydd ystyriaethau pellter teithio, ac mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn galw ar y llywodraeth ar bob lefel i roi sylw arbennig i hynny. Ni chodwyd y mater hwn yn y

has not been raised in the discussions around ‘Designed for Deliver’, which takes no account of it. It must do so now.

The Minister referred earlier to the working times directive. To my sure and certain knowledge, the service has known for 10 years that it has to respond to this directive. I accept that the directive may be a reason to make changes, but I do not accept that it is a reason to rush or to put changes to hospitals before the provision of services in the community. Frankly, if hospital providers have not got their act together on the directive, that is not the fault of the communities that they serve. We should not be bounced on that basis.

I want to refer to geography. ‘Designed to Deliver’ reads as if it has been written by someone who has never been west of Swansea or north of Neath. The distances on maps may be one thing, but those of us who live in that area or travel through it know that travel times are quite another. The proposed transfers for many services are just too far, and I refer the Minister to yesterday’s debate about ambulance services. While our ambulance services remain so fragile, people across mid and west Wales will not accept the travel distances proposed in ‘Designed to Deliver’.

Some communities in this debate have raised their voices louder than others; the issues around Withybush Hospital are well-rehearsed and I congratulate the campaigners on their hard work and success in mobilising their communities. However, I want to refer to another set of issues that have been touched upon in the Chamber, but which are perhaps not as well-rehearsed as the issues around Withybush Hospital. Those are the issues around Prince Philip Hospital in Llanelli. Llanelli has the highest concentration of population in the former county of Dyfed, but despite the best or worst efforts of the Minister’s colleague in economic development, it still has much heavy industry, and thus great potential for accidents. It has very high levels of deprivation and long-term illness, and the

trafodaethau sy’n ymwneud â ‘Cynllunio i Gyflenwi’, nad yw’n ei ystyried o gwbl. Rhaid iddo wneud hynny’n awr.

Cyfeiriodd y Gweinidog yn gynharach at y gyfarwyddeb oriau gwaith. Gwn yn sicr ac yn bendant fod y gwasanaeth yn ymwybodol ers 10 mlynedd fod angen iddo ymateb i’r gyfarwyddeb hon. Derbyniaf y gallai’r gyfarwyddeb fod yn rheswm dros wneud newidiadau, ond ni dderbyniaf ei bod yn rheswm dros ruthro na gwneud newidiadau mewn ysbytai cyn darparu gwasanaethau yn y gymuned. A dweud y gwir, os nad yw darparwyr ysbytai wedi dod i drefn o ran y gyfarwyddeb, nid bai’r cymunedau a wasanaethir ganddynt yw hynny. Ni ddylem gael ein gwthio ar y sail honno.

Hoffwn gyfeirio at ddaearyddiaeth. Mae ‘Cynllunio i Gyflenwi’ yn darllen fel pe bai wedi ei ysgrifennu gan rywun nad yw erioed wedi teithio i’r gorllewin o Abertawe neu i’r gogledd o Castell-nedd. Un peth yw’r pellteroedd ar fapiau, ond gŵyr y rhai ohonom sy’n byw yn yr ardal honno neu sy’n teithio drwyddi fod amseroedd teithio yn rhywbeth arall. Mae’r trosglwyddo arfaethedig i nifer o wasanaethau yn rhy bell, a chyfeiriaf y Gweinidog at y ddadl ddoe ar wasanaethau ambiwlans. Tra bydd ein gwasanaethau ambiwlans yn dal mor fregus, ni fydd pobl ar draws y canolbarth a’r gorllewin yn derbyn y pellteroedd teithio a gynigir yn ‘Cynllunio i Gyflenwi’.

Mae rhai cymunedau yn y ddadl hon wedi codi eu lleisiau’n uwch nag eraill; mae’r problemau ynghylch Ysbyty Llwynhelyg yn hen, a hoffwn longyfarch yr ymgrychwyr am eu gwaith caled a’u llwyddiant yn ysgogi eu cymunedau. Fodd bynnag, hoffwn gyfeirio at gyfres arall o faterion y soniwyd amdanynt yn fras yn y Siambr, ond nad ydynt wedi eu trafod gymaint â’r problemau’n ymwneud ag Ysbyty Llwynhelyg. Y materion hynny yw’r rheini sy’n ymwneud ag Ysbyty’r Tywysog Philip yn Llanelli. Yn Llanelli y mae’r dwysedd uchaf o’r boblogaeth yn hen sir Dyfed, ond er ymdrechion gorau neu waethaf cyd-aelod y Gweinidog ym maes datblygu economaidd, mae llawer o ddiwydiant trwm yno o hyd, ac felly mae potensial damweiniau yn uchel. Mae yno lefelau uchel iawn o amddifadedd a salwch hirdymor, a’r

medical needs that go along with that. So, there are strong arguments for maintaining full hospital services in Llanelli.

Having said that, there could be some positives in the proposals for services in Llanelli in 'Designed to Deliver'. For example, many people would welcome the proposal for midwife-led maternity services. There is an opportunity there to perhaps develop centres of excellence, and I am aware that the Minister has visited the breast care centre; more could be done to develop that. However, the people of Llanelli have experienced cut after cut and a constant downgrading of hospital services. The Minister will be aware of the current debate over the provision of emergency surgery. We have reached a situation where people do not trust the health decision makers, whether the trust or the local health board. The impartiality of the community health council is even being questioned. I am not saying that the concerns are wholly justified, although I share them to an extent, but it reflects how people feel, and if the Minister has any doubt about that I would refer him to our excellent local paper, the *Llanelli Star*, whose pages are regularly filled with coverage of health crises, and, more importantly perhaps, with letters referring to it.

I would submit that this is a matter for the Minister. He appoints the members of the local health boards, and before he starts to shake his head, I have taken time to consult the regulations, so I know what I am talking about. He may consult with others before he makes the appointments, but it is he who makes them. He appoints the non-executive directors of the trust boards, he sets the policy framework to which the LHBs must deliver, and his officials, quite rightly, monitor the local health boards. The health community in mid and west Wales has drafted 'Designed for Disaster' to his specification and timetable. The Minister sets the decision-making procedures and guidelines, and if he needs to change them to intervene in the current process, I urge him to do so.

anghenion meddygol sy'n gysylltiedig â hynny. Felly, mae dadleuon cryf dros gynnal gwasanaethau ysbty llawn yn Llanelli.

Wedi dweud hynny, gallai fod rhai agweddau cadarnhaol ar y cynigion dros gael gwasanaethau yn Llanelli yn 'Cynllunio i Gyflenwi'. Er enghraift, byddai nifer o bobl yn croesawu'r cynnig am wasanaethau Mae cyfle yno efallai i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth, a gwn fod y Gweinidog wedi ymweld â'r ganolfan gofal y fron; gellid gwneud mwy i ddatblygu hynny. Fodd bynnag, mae pobl Llanelli wedi cael un toriad ar ôl y llall ac israddio parhaus mewn gwasanaethau ysbty. Fe fydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r ddadl bresennol am ddarparu llawdriniaeth frys. Yr ydym wedi cyrraedd sefyllfa lle nad oes gan bobl ffydd yn y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd, boed yr ymddiriedolaeth neu'r bwrdd iechyd lleol. Mae amheuaeth hyd yn oed am agwedd ddiuedd y cyngor iechyd cymuned. Nid wyf yn awgrymu y gellir cyflawnhau'r pryderon yn llwyr, er fy mod yn eu rhannu i raddau. Ond maent yn adlewyrchu teimladau pobl, ac os oes gan y Gweinidog unrhyw amheuaeth am hynny, byddwn yn ei gyfeirio at ein papur lleol ardderchog, y *Llanelli Star*. Bydd ei dudalennau'n aml yn trafod argyfngau iechyd, ac mae'n cynnwys, yn bwysicaf oll efallai, lythyrau sy'n cyfeirio atynt.

Byddwn yn cynnig mai mater i'r Gweinidog yw hyn. Ef sy'n penodi aelodau'r byrddau iechyd lleol, a chyn iddo ddechrau ysgwyd ei ben, yr wyf wedi treulio amser yn ymgynghori â'r rheoliadau, felly gwn beth yr wyf yn ei ddweud. Hwyrach ei fod yn ymgynghori ag eraill cyn gwneud y penodiadau, ond ef sy'n eu gwneud. Ef sy'n penodi cyfarwyddwyr anweithredol byrddau ymddiriedolaethau, ef sy'n pennu'r fframwaith polisi y mae angen i'r BILLau ei ddarparu, a'i swyddogion ef, a hynny'n briodol, sy'n monitro'r byrddau iechyd lleol. Mae'r gymuned iechyd yn y canolbarth a'r gorllewin wedi llunio fersiwn drafft o 'Trefnu ar gyfer Trychineb' yn ôl ei fanylob a'i amserlen ef. Y Gweinidog sy'n pennu'r gweithdrefnau a'r canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac os oes angen iddo eu newid i ymyrryd yn y broses bresennol, anogaf ef i wneud hynny.

I ask the Minister to give serious consideration to putting the process on hold and reviewing it. I urge him to work with the local health boards to develop proper, costed, consistent and fully-funded plans for re-providing services in the community.

4.40 p.m.

If we want people to accept that there will need to be changes in their hospital services, they have to hear the good news, and see what they will get instead. I accept that we will not be able to fully provide those services in the community before the money is taken out of the acute sector, and we all think that that is the right thing to do, but, at the very least, communities should be able to see the plans—they should know what will happen.

It is very basic public relations, but if you want to bring people with you through a process of change, you start with the good news and then give them the news that may be less acceptable. ‘Designed to Deliver’ does exactly the opposite—it talks about reducing services that communities are used to getting, and does not tell them anything about what they will get instead.

I urge the Minister to work with local health boards. I am talking about proper, consistent and fully costed plans across the whole region, because I am sure that the Minister would acknowledge that development is patchy.

Next, I urge the Minister to insist, and take whatever action he can and must take, on much more effective co-operation between health and social services. That is vital, not only to deal with delayed transfers of care, but to deal with the effective provision of services in the community. Until that problem is unblocked, whatever we do to reconfigure our hospital services, we will not be able, in the long term, to properly deal with waiting lists and times because we will still have delayed transfers of care.

I would then urge the Minister—when those

Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried o ddifrif y posibilwydd o ohirio'r broses a'i hadolygu. Apelias arno i weithio gyda'r byrddau iechyd lleol i ddatblygu cynlluniau priodol, cyson, wedi'u costio a'u hariannu'n llawn ar gyfer ail-ddarparu gwasanaethau yn y gymuned.

Os ydym am i bobl dderbyn y bydd angen newidiadau yn y gwasanaethau yn eu hysbytai, rhaid iddynt glywed y newyddion da, a gweld beth a gânt yn eu lle. Derbyniaf na allwn ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y gymuned yn llawn cyn tynnu'r arian allan o'r sector aciwt, ac yr ydym i gyd yn credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ond dylai cymunedau allu gweld y cynlluniau, o leiaf—dylent gael gwybod beth fydd yn digwydd.

Mater o gysylltiadau cyhoeddus sylfaenol iawn ydyw, ond er mwyn cael pobl i'ch cefnogi drwy broses o newid, dylech ddechrau gyda'r newyddion da ac yna gyflwyno'r newyddion a all fod yn llai derbyniol. Mae 'Cynllunio i Gyflenwi' yn gwneud yn gwbl groes i hynny—mae'n sôn am leihau gwasanaethau y mae cymunedau wedi arfer eu cael, ac nid yw'n sôn dim wrthynt am yr hyn a gânt yn eu lle.

Anogaf y Gweinidog i weithio gyda byrddau iechyd lleol. Yr hyn a olygaf yw cynlluniau priodol, cyson, wedi'u costio'n llawn ar gyfer y rhanbarth cyfan, oherwydd yr wyf yn sicr y byddai'r Gweinidog yn cydnabod bod y gwaith datblygu'n anghyflawn.

Yna, anogaf y Gweinidog i fynnu, a chymryd pa gamau bynnag y mae eu hangen, i gydweithio lawer yn fwy effeithiol rhwng y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hynny'n hollbwysig, nid yn unig i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, ond i fynd i'r afael â darparu gwasanaethau yn y gymuned yn effeithiol. Nes caiff y broblem honno ei datrys, waeth beth a wnawn i ail-gyflunio ein gwasanaethau ysbyty, ni allwn, yn y pen draw, fynd i'r afael â rhestrau aros ac amseroedd aros yn briodol am na fyddwn wedi datrys yr oedi wrth drosglwyddo gofal.

Yna, byddwn yn annog y Gweinidog—pan

things are done, and not before—to work with communities across the region to develop hospital services that truly meet local needs and are truly fit for the twenty-first century. No-one is saying that the status quo should continue forever or that it is acceptable, but communities will not accept change if all that they can see is cuts and centralisation. Whatever the intention of ‘Designed to Deliver’, that is how it feels if you are one of those people who lives in a community served by those hospitals. If the Minister and the health community do not take the communities with them, then ‘Designed to Deliver’ will end up destined for the dustbin. Minister, this is your responsibility—I urge you to act now before it is too late.

Rhodri Glyn Thomas: Ategaf yr hyn y dywedodd Helen Mary Jones am yr angen i chi egluro’n glir iawn i’r cymunedau yn y canolbarth a’r gorllewin sut y byddwch yn datblygu darpariaeth gwasanaeth iechyd yn y gymuned a beth y byddwch yn ei wneud yn y sector gofal sylfaenol oherwydd, heb esboniad, ni allwch ddisgwyl bobl i gytuno i newidiadau yn y sectorau eilaidd ac aciwt.

Elin Jones: Gwrandewais ar yr ateb a rhoddodd y Gweinidog i gwestiwn gan Lisa Francis, pan ddywedodd ei fod wedi rhoi cyfarwyddid i Fwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro i roi cefnogaeth i’r grŵp sy’n ymgyrchu dros Ysbyty Llwynhelyg. Mae grŵp ymgyrchu hefyd yn bodoli i warchod Ysbyty Bronglais. Cyn-gyfarwyddwr meddygol Bronglais sy’n cadeirio’r grŵp hwnnw. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn datgan y prynhawn yma bod yr un cynnig ar gael yn Sir Benfro bydd hefyd ar gael yng Ngheredigion er mae’n rhaid dweud bod y cyngor iechyd cymunedol yng Ngheredigion eisoes wedi datgan gwrthwynebiad i ‘Designed to Deliver’ ac wedi cyflwyno opsiwn arall ar gyfer Ngheredigion sy’n gwrtihod ‘Designed to Deliver’ yn llwyr.

David Lloyd: Any reorganisation of the district general hospitals in mid and west Wales must be predicated on two factors, as we have heard from Helen Mary and Rhodri Glyn. First, we must have the development of

fydd y pethau hynny wedi eu gwneud, ac nid cyn hynny—i weithio gyda chymunedau ar draws y rhanbarth i ddatblygu gwasanaethau ysbyty sy’n wirioneddol yn diwallu anghenion lleol ac sydd yn wir yn addas ar gyfer yr unfed-ganrif-ar-hugain. Nid oes neb yn dweud y dylai’r sefyllfa bresennol barhau am byth na’i bod yn dderbynol, ond ni fydd cymunedau’n derbyn newid os y cyfan sy’n eu hwynebu yw toriadau a chanoli. Beth bynnag yw bwriad ‘Cynllunio i Gyflenwi’, dyna sut mae’n teimlo os ydych yn un o’r bobl hynny sy’n byw mewn cymuned sy’n cael ei gwasanaethu gan yr ysbytai hynny. Os na fydd y Gweinidog a’r gymuned iechyd yn cydweithio â’r cymunedau, yna tynged ‘Cynllunio i Gyflenwi’ fydd y bin sbwriel. Weinidog, eich cyfrifoldeb chi yw hyn—fe’ch anogaf i weithredu yn awr cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Rhodri Glyn Thomas: I endorse what Helen Mary Jones has said on the need for you to explain clearly to the communities in mid and west Wales how you will develop health service provision in the community, and what you will do in the primary care sector because, without an explanation, you cannot expect people to agree to changes in the secondary and acute sectors.

Elin Jones: I listened to the Minister’s response to Lisa Francis’s question this afternoon, when he said that he had directed Pembrokeshire Local Health Board to support the group which is campaigning for Withybush Hospital. There is also a group campaigning to protect Bronglais Hospital, chaired by the former director of medical services at Bronglais. I hope the Minister will say this afternoon that the proposal available in Pembrokeshire will also available in Ceredigion, although it has to be said that the community health council in Ceredigion has already stated its opposition on ‘Cynllunio i Gyflenwi’ and has presented another option for Ceredigion, which rejects ‘Cynllunio i Gyflenwi’ outright.

David Lloyd: Rhaid i unrhyw waith ad-drefnu ysbytai cyffredinol dosbarth yn y canolbarth a’r gorllewin gael ei briodoli i ddau factor, fel y clywsom gan Helen Mary a Rhodri Glyn. Yn gyntaf, rhaid inni ddatblygu

more community health services and social services before any district general hospital organisation. Secondly, we need an ambulance service that is fully up-to-speed and able to respond—again, before any secondary care reorganisation.

Lisa Francis: Minister, you said earlier that your sole aim in this consultation process was to ensure that quality services are delivered sustainably. It is of paramount importance that they are delivered safely. Helen Mary has explained how mid and west Wales is compromised in many respects by its very geography. I am concerned that this document is fundamentally flawed from the outset. There is scant research in it and you need to look into that. It is not good enough for mid and west Wales and for the people of that region. It is almost an insult to expect them to respond to such a document. Please take it back and look at it again.

Mick Bates: Thank you, Helen Mary, for raising this incredibly important issue in your short debate. I thought your title, ‘Designed for Disaster’, was very apt, because the feeling of the people in the north of my constituency of Montgomeryshire is just that. As an example, this document says that maternity consultant beds will be removed from Bronglais hospital. The people of the Machynlleth area use Bronglais hospital. I want to ask the Minister what risk assessment he has undertaken with regard to closing those beds in terms of putting a mother who is about to give birth in an ambulance and sending her on a 75-mile journey? Obviously, I have never given birth, but can you imagine the anxiety of the people who have received a perfectly adequate service and who are now told that it will disappear? Minister, I think that you owe us some clear answers so that we can have some stability and remove a lot of the anxiety that currently exists about services that are about to disappear to distant places.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): As Derek

mwy o wasanaethau iechyd cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol cyn trefnu unrhyw ysbty cyffredinol dosbarth. Yn ail, mae arnom angen gwasanaeth ambiwlans sy'n gweithio'n llawn ac sydd â'r gallu i ymateb—eto, cyn ystyried unrhyw ad-drefnu gofal eliaidd.

Lisa Francis: Weinidog, yr oeddech yn dweud yn gynharach mai eich unig nod yn y broses ymgynghori hon oedd sicrhau y caiff gwasanaethau o safon eu darparu'n gynaliadwy. Mae'n hynod bwysig iddynt gael eu darparu'n ddiogel. Mae Helen Mary wedi egluro sut y mae'r canolbarth a'r gorllewin yn cael eu peryglu mewn llawer ffordd oherwydd eu daearyddiaeth. Pryderaf fod y ddogfen hon yn sylfaenol wallus o'r cychwyn. Ychydig iawn o waith ymchwilio i hynny. Nid yw'n ddigon da i'r canolbarth a'r gorllewin a phobl y rhanbarth hwnnw. Mae bron â bod yn sarhaus disgwyl iddynt ymateb i'r fath ddogfen. Cymerwch hi yn ôl ac edrychwrn arni eto, os gwelwch yn dda.

Mick Bates: Diolch i chi, Helen Mary, am godi'r mater pwysig iawn hwn yn eich dadl fer. Yr oeddwn yn meddwl bod eich pennawd, ‘Trefnu ar gyfer Trychineb’, yn addas iawn, oherwydd dyna yw teimlad y bobl yng ngogledd fy etholaeth i yn sir Drefaldwyn. Er enghraifft, dywed y ddogfen hon y bydd gwelyau mamolaeth lle y mae meddygon ymgynghorol ar gael yn cael eu symud o ysbty Bron-glais. Mae pobl yn ardal Machynlleth yn defnyddio ysbty Bron-glais. Yr wyf am ofyn i'r Gweinidog pa asesiad risg sydd wedi ei wneud mewn cysylltiad â chau'r gwelyau hynny o ran rhoi mam sydd ar fin rhoi genedigaeth mewn ambiwlans a'i hanfon ar daith 75 milltir? Yn amlwg, nid wyf i erioed wedi rhoi genedigaeth, ond a allwch ddychmygu gofid y bobl sydd wedi cael gwasanaeth cwbl ddigonol ac sy'n cael y newyddion yn awr y bydd yn diflannu? Weinidog, credaf ein bod yn haeddu cael atebion clir gennych fel y gallwn gael ychydig sefydlogrwydd a chael gwared ar lawer o'r gofid sy'n bodoli ar hyn o bryd am wasanaethau sydd ar fin diflannu i fannau pell.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Fel y

Wanless told us, no change is not an option, so to do nothing is to create a situation for the health service in Wales in which it would be destined for disaster. One of Wanless's core messages is that the health structures that we have in place are out of date, unsuitable and unsustainable. The twenty-first century poses different health problems that need different health solutions. Expertise is too thinly spread and we need to redesign services. If we wish to continue with the generalist-based service that we have inherited from the early 1960s, then we need to be clear in telling people what we are offering them. However, it is simply not possible to deliver modern, specialised healthcare based on a model that is nearly a half-a-century old. If people want to have the best-quality service, we need service redesign and service reconfiguration.

It could be argued that we should proceed more gently. Indeed, we have had this argument today. However, there is another unavoidable driver of change, which we cannot ignore and which will not go away, and which will be with us within three years, namely compliance with the working times directive, which is not optional. Responding to the pressures of the working times directive is not new, as Helen Mary said—it has been going on for many years. By September 2005, the directive had resulted—at the 58-hours level—in, more or less, 95 per cent compliance in Wales. So, considerable work has been going on to achieve compliance with it. However, by 2009, compliance based on present work patterns will be only 29 per cent.

The best estimate is that compliance with the August 2009 limit of 48 hours in Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire, at the present rate of progress, is unachievable. Some trusts in mid and west Wales already have high vacancy rates and a level of dependency on agency and locum working that is among the highest in Wales. This is a very expensive and unsustainable way of working, which will only get worse if the changes are not put in place. In fact, other parts of Wales face similar problems, but that is of no comfort, because it means that there

dywedodd Derek Wanless wrthym, nid yw peidio â newid yn ddewis, felly, mae gwneud dim yn creu sefyllfa i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru a allai fod yn drychinezus. Un o brif negeseuon Wanless yw bod y strwythurau iechyd sydd gennym ar waith yn hen, yn anaddas ac yn anghynaliadwy. Mae'r unfed ganrif ar hugain yn creu problemau iechyd gwahanol sy'n gofyn am atebion iechyd gwahanol. Nid oes digon o arbenigedd, ac mae angen inni ailgynllunio gwasanaethau. Er mwyn inni allu parhau'r gwasanaeth cyffredinol a etifeddwyd gennym o'r 1960au cynnar, rhaid inni fod yn glir wrth ddweud wrth bobl beth yr ydym yn ei gynnig iddynt. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl darparu gofal iechyd arbenigol, modern yn seiliedig ar fodel sydd bron yn hanner cant oed. Os yw pobl am gael y gwasanaeth o'r safon orau, mae angen inni ailgynllunio ac ailgyflunio gwasanaethau.

Gellid dadlau y dylem fynd ymlaen gan bwylly. Yn wir, yr ydym wedi cael y ddadl hon heddiw. Fodd bynnag, mae yna ffactor arall na ellir ei osgoi sy'n llywio newid, na allwn ei anwybyddu ac na fydd yn diflannu, ac a fydd ar waith ymhen tair blynedd, sef cydymffurfio â'r gyfarwyddeb oriau gwaith. Nid oes dewis ynglŷn â hynny. Nid yw ymateb i bwysau'r gyfarwyddeb oriau gwaith yn rhywbeth newydd, fel y dywedodd Helen Mary—mae'n digwydd ers blynyddoedd. Erbyn mis Medi 2005, yr oedd y gyfarwyddeb wedi arwain—ar y lefel 58 awr—at 95 y cant o gydymffurfio, fwy neu lai, yng Nghymru. Felly, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i sicrhau cydymffurfio. Fodd bynnag, erbyn 2009, 29 y cant fydd y cydymffurfio, ar sail patrymau gwaith presennol.

Yn ôl yr amcangyfrif gorau, ni fydd yn bosibl cydymffurfio â therfyn mis Awst 2009 o 48 awr yng Ngheredigion, sir Benfro a sir Gaerfyrddin, yn ôl y cynnydd presennol. Mae gan rai ymddiriedolaethau yn y canolbarth a'r gorllewin gyfraddau uchel o swyddi gwag eisoes, ac mae lefel eu dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth a locwm ymhlið yr uchaf yng Nghymru. Mae hon yn ffordd gostus ac anghynaliadwy iawn o weithio, ac ni fydd ond yn gwaethyg os na roddir y newidiadau ar waith. Yn wir, mae rhannau eraill o Gymru yn wynebu problemau tebyg.

is no latitude for making special cases or arguing that there are special exemptions. If the whole of Wales faces this problem, then the whole of Wales must work together to resolve it.

This cannot be the basis upon which we want to deliver world-class services for mid and west Wales. The National Assembly has accepted the need for change and recognises that we need a long and sustained programme of delivering the challenge outlined in the Wanless report. It welcomed 'Designed for Life' as the mechanism to deliver these ambitions. So, when the health service suggests that radical change is needed, our response cannot be one of rejection, or even acceptance in theory without it being followed by a practical set of proposals for action. If we do not come up with a set of practical proposals to these problems within a reasonable timeframe, time will run out and we will find ourselves out of compliance with the working times directive. It is not enough to say that this is some barmy, off-the-wall EU directive, because failure to comply will result in illegal activity.

4.50 p.m.

The directive is not about creating problems; it is about creating decent, safe working conditions for staff in the NHS, reducing risks for patients that follow from healthcare staff working unacceptably long and stressful hours. If there is failure to comply with the working times directive, organisations and hospitals out of compliance will not be able to attract staff, because of adverse working conditions. They will almost certainly not achieve training accreditation. The local service will suffer, and, consequently, patients will also suffer. So, there is a timeframe within which we must get this right, and there is simply not the luxury of many years in which to gently and sedately work towards delivering this—2009 is around the corner.

There is a legitimate point in saying that people are reluctant to move towards the

Ond nid yw hynny o ddim cysur, oherwydd mae'n golygu nad oes rhyddid i wneud achosion arbennig neu ddadlau bod yna eithriadau arbennig. Os yw Cymru gyfan yn wynebu'r broblem hon, yna rhaid i Gymru gyfan gydweithio i'w datrys.

Ni all hyn fod yn sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r canolbarth a'r gorllewin. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi derbyn yr angen am newid, ac mae'n cydnabod bod angen rhaglen hir a chyson arnom i ymateb i'r her a amlinellwyd yn adroddiad Wanless. Yr oedd yn croesawu 'Cynllun Oes' fel y mecanwaith ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Felly, pan fydd y gwasanaeth iechyd yn awgrymu bod angen newid radical, ni allwn ei wrthod, na hyd yn oed ei dderbyn mewn egwyddor heb iddo gael ei ddilyn gan gyfres ymarferol o gynigion ar gyfer gweithredu. Os na luniwn gyfres o gynigion ymarferol i'r problemau hyn o fewn amserlen resymol, aiff amser yn drech na ni, a'r byddwn hyn methu cydymffurfio â'r gyfarwyddeb oriau gwaith. Nid yw'n ddigon dweud bod hon yn gyfarwyddeb gan yr UE sy'n wirion ac yn anarferol, oherwydd bydd methu cydymffurfio yn arwain at weithredu anghyfreithlon.

Nid creu problemau yw diben y gyfarwyddeb; mae'n ymwnedd â chreu amodau gwaith priodol a diogel i staff yn y GIG, gan leihau risgiau i gleifion am fod staff gofal iechyd yn gweithio oriau sy'n annerbyniol o hir a llafurus. Os bydd methiant i gydymffurfio â'r gyfarwyddeb oriau gwaith, ni fydd sefydliadau nac ysbytai nad ydynt yn cydymffurfio yn gallu denu staff, oherwydd amodau gwaith andwyol. Mae bron yn sicr na fyddant yn cael achrediad hyfforddiant. Bydd y gwasanaeth lleol yn dioddef, ac o ganlyniad bydd cleifion hefyd yn dioddef. Felly, mae yna amserlen y mae'n rhaid inni gyflawni hyn o'i mewn, ac nid oes gennym yr hyblygrwydd i allu treulio blynnyddoedd lawer yn gweithio gan bwyll ac yn ddigyffro tuag at gyflawni hyn—mae 2009 ar ddod.

Mae'n deg dweud bod pobl yn amharod i symud ymlaen i'r dyfodol os na allant weld

future if they cannot see the shape of things to come. However, that does not acknowledge the change that is going on. It is not a case of change not happening; the problem is that we do not have a clear, visible, bricks-and-mortar exemplar of what the future is. Nevertheless, change is taking place. The new GP contract has been a major factor in shifting services into the community. A sum of £54 million has been spent on developing enhanced services in the new general medical services contract. This has resulted in a wide range of services that were not previously provided being offered in the community by GPs.

Equally, we have the new Tenby hospital, which I am due to open on Monday. It offers a new model of care, bringing together a wide range of health, social care, minor injury and minor surgery activity. The new Pembroke Dock hospital, which is due to open in October, will have the same flexibility and range of services. Earlier this month, agreement was given to the development of the Port Talbot primary care resource centre—a new and exciting development, which will include primary care, community services, the voluntary sector and the local authority in a single modern, new and innovative environment. Similar work is taking place in Britton Ferry.

In Ceredigion, real, imaginative work is already under way to align unscheduled primary care with the way that accident and emergency services are delivered. We know that proposals are being worked on to develop a new network of provision based on projects being proposed in places such as Tregaron, Aberaeron and Cardigan.

It is too early to anticipate the full potential of these proposals, but the statement of purpose and the direction of travel in a real, concrete way are being outlined.

Christine Gwyther: It is good to know that you are listening to the people of mid and west Wales. I have been to nearly 30 consultation meetings over the last few months, in a pre-consultation and now full

beth sydd o'u blaenau. Fodd bynnag, nid yw hynny'n cydnabod y newid sy'n digwydd. Y gwir yw bod newid yn digwydd, ond nid oes gennym enghraifft glir, weladwy a chadarn o'r dyfodol. Serch hynny, mae newid ar waith. Mae contract newydd y meddygon teulu wedi bod yn ffactor pwysig wrth symud gwasanaethau i'r gymuned. Gwariwyd £54 miliwn ar ddatblygu gwell gwasanaethau yn y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd. Mae hyn wedi arwain at greu ystod eang o wasanaethau na ddarperid gynt gan feddygon teulu yn y gymuned.

Yn yr un modd, mae ysbty newydd yn Ninbych-y-pysgod y byddaf yn ei agor ddydd Llun. Mae'n cynnig patrwm gofal newydd, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth eang o ofal cymdeithasol, a chyfleusterau ar gyfer mân anafiaidau a mân lawdriniaethau. Bydd gan yr ysbty newydd yn Noc Penfro, a fydd yn agor ym mis Hydref, yr un hyblygrwydd ac amrywiaeth gwasanaethau. Yn gynharach y mis hwn, cafwyd cytundeb i ddatblygu canolfan adnoddau gofal sylfaenol Port Talbot—datblygiad newydd a chyffrous, a fydd yn cynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, y sector gwirfoddol a'r awdurdod lleol mewn un amgylchedd modern, newydd ac arloesol. Mae gwaith tebyg yn mynd rhagddo yn Llansawel.

Yng Ngheredigion, mae gwaith gwirioneddol, creadigol eisoes yn mynd ymlaen i alinio gofal sylfaenol heb ei drefnu â'r ffordd y darperir gwasanaethau damweiniau ac achosion brys. Gwyddom fod cynigion yn cael eu trafod i ddatblygu rhwydwaith newydd o ddarpariaeth yn seiliedig ar gynnig prosiectau mewn lleoedd fel Tregaron, Aberaeron ac Aberteifi.

Mae'n rhy gynnar rhag-weld potensial llawn y cynigion hyn, ond amlinellir y datganiad o ddiben a'r cyfeiriad teithio mewn ffordd real a chadarn.

Christine Gwyther: Mae'n dda gwybod eich bod yn gwrando ar bobl y canolbarth a'r gorllewin. Yr wyf wedi bod mewn tua 30 o gyfarfodydd ymgynghorol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mewn cyfnod cyn

consultation period. I have been disappointed that not a single opposition AM has attended any of those meetings. I am, frankly, surprised that they feel able to talk with such authority on a subject about which they should have learned a lot more.

My constituents have been telling me consistently over the last three months that they want to see more development in primary care. I was pleased to hear you talking about the hospitals in Tenby and Pembroke Dock, which will be providing that primary care. I want to see that primary care—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is an intervention; it is not a speech.

Christine Gwyther: Could you give an assurance that those sorts of primary care centres will be spread across the region before we talk about a full-blown re-organisation of our secondary care services?

Brian Gibbons: The problem is whether or not the service can maintain resilience after 2009 if we do not make major changes. If we are not able to deliver compliance with the European working times directive a lot of the basic services that Members take for granted will be in serious jeopardy. It is an unavoidable ‘must deliver’ for us in the health service.

Rhodri Glyn made reference to working with social care. I am pleased to see the good progress being made in Pembrokeshire; Pembrokeshire and Derwen NHS Trust had one of the highest proportions of hospital beds occupied by delayed transfers of care six months ago, but significant progress has been made to improve that situation. Equally, in Carmarthenshire, a bad situation exists in relation to delayed transfer of care, but I am sure that Rhodri Glyn and other people from Carmarthenshire will be aware of the new sense of purpose and partnership that is emerging.

Therefore, there are clear, tangible signs of putting the new future in place if people want to go out to see them.

ymgyngħori ac mewn cyfnod ymgyngħori llawn yn awr. Fe'm siomwyd nad oes yr un o AC y gwrthbleidiau wedi mynchu un o'r cyfarfodydd hynny. Yr wyf yn synnu, a dweud y gwir, eu bod yn teimlo y gallant siarad gyda chymaint o awdurdod ar bwnc y dylent fod wedi dysgu llawer mwy amdano.

Mae fy etholwyr wedi bod yn dweud wrthyf yn gyson dros y tri mis diwethaf eu bod am weld mwy o ddatblygu mewn gofal sylfaenol. Yr oeddwn yn falch eich clywed yn siarad am yr ysbytai yn Ninbych-y-pysgod ac yn Noc Penfro, a fydd yn darparu'r gofal sylfaenol hwnnw. Yr wyf am weld y gofal sylfaenol hwnnw—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ymyriad yw hwn; nid arraith.

Christine Gwyther: Allwch chi roi sicrwydd y bydd y mathau hynny o ganolfannau gofal sylfaenol yn cael eu darparu ar draws y rhanbarth cyn inni siarad am ad-drefnu ein gwasanaethau gofal eilaidd ar raddfa fawr?

Brian Gibbons: Y broblem yw a all y gwasanaeth barhau'n gadarn ar ôl 2009 os na wnaŵn newidiadau mawr. Os na allwn sicrhau cydymffurfio â'r gyfarwyddeb oriau gwaith Ewropeaidd, bydd nifer o'r gwasanaethau sylfaenol y mae Aelodau yn eu cymryd yn ganiataol mewn perygl difrifol. Mae'n rhywbeth anochel y mae'n rhaid inni ei gyflawni yn y gwasanaeth iechyd.

Cyfeiriodd Rhodri Glyn at weithio gyda gofal cymdeithasol. Yr wyf yn falch gweld y cynnydd da sy'n cael ei wneud yn sir Benfro; chwe m is yn ôl yr oedd gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen un o'r cyfrannau uchaf o welyau ysbyty'n cael eu defnyddio gan gleifion a oedd yn wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal, ond gwnaed cynnydd sylweddol i wella'r sefyllfa honno. Yn yr un modd, yn sir Gaerfyrddin, mae yna sefyllfa wael o oedi wrth drosglwyddo gofal, ond yr wyf yn siŵr y bydd Rhodri Glyn a phobl eraill o sir Gaerfyrddin yn ymwybodol o'r ymdeimlad newydd o bwrpas a phartneriaeth sy'n dod yn amlwg.

Felly, mae yna arwyddion clir a chadarn o osod y dyfodol newydd ar waith os yw pobl am fynd allan i'w gweld.

Tamsin Dunwoody: I was glad to hear you say that Pembrokeshire is showing signs of moving towards the new changes. However, Wanless emphasised that the National Assembly should be looking at not only moving forward and moving things back to community level, but investing in the community level, and developing those services, at the same time as looking at the potential of pooling resources and estates, and looking at the merger and the management of social services, as well as healthcare. I am glad to say that Pembrokeshire is working towards an option 3. I reiterate Chris Gwyther's point that no opposition AM attended any of the consultation meetings that I attended. The people's voice is clear—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is another speech—you are meant to intervene on the Minister.

Tamsin Dunwoody: Thank you for reminding me, Deputy Presiding Officer. Minister, could you say a few words about moving forward on the social services interface?

Brian Gibbons: There are some constraints because of my adjudication role in this. I would not want to create a situation in which it would seem that I have prejudged any referral to me, if that is necessary; I clearly have not done that. However, it is important that there is public engagement with the process of change. As I said earlier today, if there is not professional confidence in the resilience of the care system, and if there is not public confidence in the capacity of that service to deliver for local people, then our capacity to be able to deliver the changes will be severely compromised.

Catherine Thomas: I am glad that you have touched on the importance of engagement. You know that I have fundamental concerns about the acute services review and how it will affect my constituents in Llanelli, especially the proposal to take away emergency surgery. However, to carry on from what I asked you earlier, I would appreciate it if you can bring influence to

Tamsin Dunwoody: Yr oeddwn yn falch eich clywed yn dweud bod sir Benfro yn dangos arwyddion o symud tuag at y newidiadau newydd. Fodd bynnag, pwysleisiodd Wanless y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn ystyried nid yn unig symud ymlaen a symud pethau yn ôl i'r gymuned, ond buddsoddi yn y gymuned, a datblygu'r gwasanaethau hynny ynghyd ag edrych ar y posibilrwydd o gyfuno adnoddau ac ystadau, ac edrych ar y broses o uno a rheoli gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â gofal iechyd. Yr wyf yn falch dweud bod sir Benfro yn gweithio tuag at ddewis 3. Ategaf bwynt Chris Gwyther na fu'r un o ACau y gwrthbleidiau yn unrhyw un o'r cyfarfod ymgynghori a fynychais. Mae llais y bobl yn glir—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae hyn yn arraith arall—disgwylir ichi ymyrryd pan fydd y Gweinidog yn siarad.

Tamsin Dunwoody: Diolch am fy atgoffa, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, allech chi ddweud ychydig eiriau ynglŷn â symud ymlaen i gydgysylltu'r gwasanaethau cymdeithasol?

Brian Gibbons: Mae ychydig gyfyngiadau o ganlyniad i'm rôl ddyfarnu yn hyn. Ni fyddwn am greu sefyllfa lle y byddai'n ymddangos fy mod wedi rhagfarnu unrhyw atgyfeiriad ataf, os bydd hynny'n angenrheidiol; mae'n amlwg nad wyf wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni ymgysylltu â'r cyhoedd wrth sicrhau newid. Fel y dywedais yn gynharach heddiw, os na fydd hyder proffesiynol yng nghadernid y system gofal, ac os na fydd hyder y cyhoedd yng ngallu'r gwasanaeth hwnnw i ddarparu ar gyfer bobl leol, yna caiff ein gallu i gyflwyno'r newidiadau ei beryglu'n ddifrifol.

Catherine Thomas: Yr wyf yn falch eich bod wedi crybwyllyw pwysigrwydd ymgysylltu. Gwyddoch fod gennylf bryderon sylfaenol ynglŷn â'r adolygiad o wasanaethau aciwt a sut y bydd yn effeithio ar fy etholwyr yn Llanelli, yn enwedig y cynnig i gael gwared ar lawdriniaeth frys. Fodd bynnag, i barhau gyda'r hyn a ofynnais ichi yn gynharach, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech

bear on those making decisions in my constituency regarding organising a second public meeting, so that people can feel that they are fully engaged. It is pretty rich of opposition Members, and especially Helen Mary Jones, to talk about the importance of engagement when they have not attended any meetings in mid and—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is another speech. What has been said has been perfectly in order, but Members must be a little cleverer at getting in with interventions on the Minister, rather than trying to make speeches.

Brian Gibbons: I have dealt with some of Catherine's points. It is a disappointment to me, in some ways, that these requests are being made, because I am aware that over 7,000 people have turned up at consultation exercises in mid and west Wales. We owe a great debt of gratitude to people who have given up of their free time and have made considerable investment in trying to work up alternative proposals.

I am pleased to take away what Elin Jones said about local work action groups needing the type of information that is necessary to work up other practical and realistic options; this is the whole purpose of the consultation. As a Government, we are not putting the consultation out under a three-line whip. We expect our public representatives to engage fully with this debate, as public representatives. If they are not confident that the proposals that are coming forward are sufficiently resilient, I would suggest that they have a public duty to speak up on behalf of their constituents, and need to be there at those meetings to hear what the public is saying. If Members did not do that, I believe that they would be failing as representatives in the National Assembly for Wales.

Lisa Francis: Will you give way, Minister?

Brian Gibbons: Yes.

The Deputy Presiding Officer: Order.

ddylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn fy etholaeth i o ran trefnu ail gyfarfod cyhoeddus, fel y gall pobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn. Mae'n chwerthinllyd i Aelodau'r gwrthbleidiau, ac yn enwedig Helen Mary Jones, sôn am bwysigrwydd ymgysylltu pan nad ydynt wedi mynchu un o'r cyfarfodydd yn y canolbarth a—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae hyn yn arraith arall. Mae'r hyn a ddywedwyd yn hollol mewn trefn, ond rhaid i Aelodau fod ychydig yn fwy clyfar wrth ymyrryd pan fydd y Gweinidog yn siarad, yn hytrach na cheisio gwneud areithiau.

Brian Gibbons: Yr wyf wedi delio â rhai o bwyntiau Catherine. Mae'n fy siomi, mewn rhai ffyrdd, fod y ceisiadau hyn yn cael eu gwneud, oherwydd gwn fod dros 7,000 o bobl wedi mynchu ymarferion ymgynghori yn y canolbarth a'r gorllewin. Dylem fod yn ddiolchgar iawn i'r bobl hynny sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i geisio llunio cynigion amgen.

Yr wyf yn falch derbyn yr hyn a ddywedodd Elin Jones fod ar grwpiau gweithredu lleol angen y wybodaeth sy'n angenreidiol i lunio dewisiadau ymarferol a realistig eraill; dyna yw holl ddiben yr ymgynghori. Fel Llywodraeth, nid ydym yn cyflwyno'r ymgynghori o dan chwip tair llinell. Disgwyliwn i'n cynrychiolwyr cyhoeddus ymgysylltu'n llawn â'r ddadl hon, fel cynrychiolwyr cyhoeddus. Os nad ydynt yn hyderus fod y cynigion a gyflwynir yn ddigon cadarn, awgrymaf fod ganddynt ddyletswydd gyhoeddus i siarad ar ran eu hetholwyr, a bod angen iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny i glywed yr hyn sydd gan y cyhoedd i'w ddweud. Pe na byddai Aelodau'n gwneud hynny, credaf y byddent yn methu yn eu rôl fel cynrychiolwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Lisa Francis: A wnewch chi ildio, Weinidog?

Brian Gibbons: Gwnaf.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Cyn ichi

Before you decide to give way, Minister, your contribution must not take more than 15 minutes.

Lisa Francis: I am grateful to you for taking an intervention, Minister, as you are busy with them this afternoon. You talk about the importance of public confidence. Do you, as a doctor, not feel that the 'Designed to Deliver' document, in its proposals for consultant obstetrics alone, is fundamentally flawed?

5.00 p.m.

Brian Gibbons: I will let Helen Mary come in.

Helen Mary Jones: For the record—

The Deputy Presiding Officer: Order. There cannot be an intervention on an intervention.

Brian Gibbons: I am letting her intervene on my speech. I give way to Helen Mary.

Helen Mary Jones: For the record, it is true that I have not been able to attend any of the meetings in Pembrokeshire, although other members of Plaid Cymru, including county councillors, have done so. Catherine Thomas is very well aware that I have attended meetings in Llanelli. I am disappointed that she should try to imply otherwise.

Brian Gibbons: In conclusion, this is an important issue. I hope that it will be possible to reach local agreement on these issues, because the necessity of change is unanswerable. Maintaining the status quo is a recipe for disaster, and would lead to a total falling apart of the health service in Wales. Hopefully, the debate will continue—

The Deputy Presiding Officer: Order. That brings today's proceedings to a close.

benderfynu ildio, Weinidog, ni ddylai eich cyfraniad gymryd mwy na 15 munud.

Lisa Francis: Yr wyf yn ddiolchgar i chi am gymryd ymyriad, Weinidog, ganeich bod yn cael llawer y prynhawn yma. Yr ydych yn sôn am bwysigrwydd hyder y cyhoedd. Onid ydych chi, fel meddyg, yn teimlo bod diffygion sylfaenol yn y ddogfen 'Cynllun Oes', yn ei chynigion ar gyfer obstetreg ymgynghorol yn unig?

Brian Gibbons: Gadawaf i Helen Mary gyfrannu.

Helen Mary Jones: Hoffwn gofnodi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni allwn gael ymyriad yn ystod ymyriad.

Brian Gibbons: Yr wyf yn gadael iddi ymyrryd yn ystod fy arraith. Ildiaf i Helen Mary.

Helen Mary Jones: Hoffwn gofnodi ei bod yn wir nad wyf wedi gallu mynychu unrhyw un o'r cyfarfodydd yn sir Benfro, er bod aelodau eraill o Blaid Cymru, gan gynnwys cynghorwyr sir, wedi gwneud hynny. Mae Catherine Thomas yn gwybod yn iawn fy mod wedi mynychu cyfarfodydd yn Llanelli. Yr wyf yn siomedig ei bod yn ceisio awgrymu'n wahanol.

Brian Gibbons: I gloi, mae hwn yn fater pwysig. Gobeithio y bydd yn bosibl dod i gytundeb lleol ar y materion hyn, oherwydd mae'r angen am newid yn ddiywriad. Mae cynnal y sefyllfa bresennol yn ffordd sicr i gael llanast, a byddai'n arwain at chwalu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn gyfan gwbl. Gobeithio y bydd y ddadl yn parhau—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.01 p.m.
The meeting ended at 5.01 p.m.*

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur – Labour)
 Ellis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sergeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)